



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**ADRODDIAD  
LLYFRGELLOEDD  
CYMRU  
2020-2021**

## **Rhagair**

Yn ystod y pandemig, parhaodd y llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth amhrisiadwy i gymunedau lleol. Wrth i adeiladau ffisegol gau ym mis Mawrth 2020, bu gwasanaethau llyfrgell yn chwim i ddatblygu a hybu gwasanaethau ar-lein ac fe wnaethant barhau i ddarganfod ffyrdd arloesol i liniaru'r unigrwydd a'r ynysigrwydd yr oedd llawer yn ei brofi drwy gydol y cyfnodau clo amrywiol. Ni ellir gorbwysleisio cyfraniad llyfrgelloedd cyhoeddus i les pobl ar hyd y cyfnod hwn.

O ganlyniad i gau llyfrgelloedd cyhoeddus a'r tarfu fu ar wasanaethau oherwydd y pandemig, roedd yn anymarferol parhau â'r ymarferiad adrodd blynyddol arferol yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC) ar gyfer 2020-21. Fodd bynnag, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am lyfrgelloedd cyhoeddus, teimlaf ei bod yn bwysig cofnodi a chydabod cyfraniad gwasanaethau'r llyfrgelloedd i'n gymunedau yn ystod dyddiau anodd y pandemig.

Am hynny, ymarferiad casglu data diwygiedig yw'r adroddiad hwn, gyda mwy o bwyslais ar gasglu gwybodaeth ansoddol a gweld beth oedd profiad cwsmeriaid llyfrgelloedd. Nid yw'n cymharu ymateb gwasanaethau unigol i'r pandemig, gan gydnabod bod sefyllfa leol pob gwasanaeth yn amrywio, er enghraifft, o ran y gallu i gael mynediad at adeiladau a rennid, neu nifer y staff a ddefnyddiwyd i gynorthwyo gydag agweddau eraill ar yr ymateb i'r pandemig.

Unwaith eto, beth bynnag oedd eu hamgylchiadau, dangosodd llyfrgelloedd cyhoeddus eu bod yn rhan hanfodol o gymunedau lleol, ac mae'r ymrwymiad, y gwytnwch a'r tosturi a ddangoswyd gan staff llyfrgelloedd yn ystod y pandemig yn ysbrydoliaeth. Mae ymroddiad staff i'w cwsmeriaid a'r gwerth y mae'r cwsmeriaid hyn yn ei osod ar eu gwasanaeth llyfrgell yn amlwg yn yr astudiaethau achos teimladwy sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Bu'r pandemig yn gyfrwng i gyflymu'r newid mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau digidol a gweithgareddau ar-lein. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo llyfrgelloedd i gynnal a datblygu'r gwasanaethau hyn lle maent wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, gwyddom fod llawer o gwsmeriaid yn dal i werthfawrogi'r cyfle i ymweld â'u llyfrgell leol i fynychu gweithgareddau, i ofyn am gymorth neu gyngor gan staff y llyfrgell, neu fel man tawel i ddarllen, astudio neu weithio. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi gwasanaethau wrth iddynt annog unigolion i ddychwelyd yn bersonol, ac ailafael yn y gwaith rhagorol y maent yn ei wneud yn cefnogi llesiant, iechyd, sgiliau, dysgu, addysg, yn ogystal â'r pleser syml o ddarllen.

**Rebecca Evans AS**

**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
Adroddiadau Gwasanaethau Unigol .....	6
PEN-Y-BONT AR OGWR (YMDDIRIEDOLAETH DDIWYLLIANNOL AWEN) .....	7
BLAENAU GWENT (Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin).....	10
CAERFFILI.....	12
CAERDYDD.....	15
SIR GAERFYRDDIN .....	17
CEREDIGION .....	19
CONWY.....	21
SIR DDINBYCH .....	24
SIR Y FFLINT.....	27
GWYNEDD.....	29
YNYS MÔN.....	32
MERTHYR TUDFUL.....	34
SIR FYNWY.....	36
CASTELL-NEDD PORT TALBOT .....	38
CASNEWYDD .....	41
SIR BENFRO .....	44
POWYS .....	47
RHONDDA CYNON TAF.....	50
TORFAEN .....	56
BRO MORGANNWG .....	58
WRECSAM.....	61
Atodiad 1: Llyfrgelloedd yn y pandemig.....	64

## Cyflwyniad

Yn wreiddiol, y bwriad oedd ymestyn *Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020* am flwyddyn ychwanegol tra byddai fframwaith safonau newydd yn cael ei ddatblygu. Fodd bynnag, golygai cau llyfrgelloedd yn ystod y pandemig nad oedd yn ymarferol gofyn i awdurdodau lleol adrodd yn erbyn y fframwaith llawn ar gyfer 2020-21. Yn lle hynny, gyda chydweithrediad Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr, cynhaliwyd ymarferiad oedd yn canolbwyntio mwy ar gasglu data allweddol a chasglu gwybodaeth am y ffordd yr addasodd gwasanaethau llyfrgell ac ymateb i anghenion cwsmeriaid yn ystod y pandemig. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu gwybodaeth a gyflwynwyd gan bob un o'r 22 awdurdod llyfrgell.

Ar gyfer 2020-21, fe wnaeth pob gwasanaeth y canlynol:

- Crynhoi ei ddarpariaeth yn erbyn 12 hawl craidd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC);<sup>1</sup>
- Cofnodi ei gyflawniadau yn erbyn 6 dangosydd ansawdd (yn lle 16) y SLICC;
- Darparu adroddiad naratif ar ei gyfeiriad strategol;
- Darparu hyd at chwech astudiaeth achos yn dangos effaith gwasanaeth y llyfrgell ar bobl.

Mae'r adroddiad ar berfformiad pob gwasanaeth unigol yn seiliedig i raddau helaeth ar y naratif a ddarparwyd yn erbyn yr hawliau craidd, ac ar astudiaethau achos, yn hytrach nag ar wybodaeth ystadegol a ddarparwyd drwy'r dangosyddion ansawdd. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan y dangosyddion ansawdd er hynny yn rhoi gwybodaeth werthfawr am aelodaeth, defnydd ar-lein a ffigurau benthyca, ochr yn ochr â lefelau staffio, a chostau rhedeg y gwasanaeth. Rhoddir rhai ffigurau pennawd cyffredinol isod:

Yn 2020-21:

- Benthyciwyd 1,492,452 o lyfrau. Er bod adeiladau ffisegol ar gau sicrhawyd bod llyfrau llyfrgell yn parhau i fod ar gael, i raddau helaeth drwy'r gwasanaethau 'clicio a chasglu', a sefydlwyd ledled Cymru.
- Cynhaliwyd 173,235 o gasgliadau a danfoniadau drwy'r cynlluniau 'clicio a chasglu'.
- Ymwelodd 4,528,337 o bobl â gwefannau'r llyfrgelloedd. Mae hyn yn gynydd o 49% ar nifer yr ymweliadau â gwefannau llyfrgelloedd yn 2019/20.
- Lawrlwythwyd 2,897,491 o e-adnoddau, cynnydd dramatig ar y 1,200,491 a lawrlwythwyd yn 2019/20.

---

<sup>1</sup> [Mesur y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus: ein safonau | LLYW.CYMRU](#)

- Roedd nifer y rhai newydd a ymunodd â'r llyfrgell i Borrowbox, ar draws Cymru ar 19 Mawrth 2020, 648% yn uwch nag yr oedd ar 5 Mawrth 2021.<sup>2</sup>
- Gwariodd awdurdodau lleol £37.5 miliwn (net) ar lyfrgelloedd, ychydig dros 21.2 ceiniog yr wythnos y pen.
- Mae yna 1,184,426 o aelodau llyfrgelloedd yng Nghymru sy'n 37% o'r boblogaeth.<sup>3</sup>

Mae'r effaith sylweddol y mae llyfrgelloedd yn ei chael ar eu cymunedau, fel y dangosir yn yr adroddiad, yn amlwg yn cynrychioli gwerth am arian. Mae'r ystadegau a amlinellir uchod yn dangos pwysigrwydd llyfrgelloedd cyhoeddus i'w haelodau. Yn ystod y pandemig, roedd llyfrgelloedd yn hanfodol i ddod â chymunedau at ei gilydd ar-lein drwy, er enghraifft, glybiau Lego, grwpiau darllen ar-lein a sesiynau amser stori.

Mae llyfrgelloedd fel canolfannau lleol yn chwarae rhan allweddol mewn sicrhau bod gwybodaeth a diwylliant o fewn cyrraedd pawb. Mae pwysigrwydd diwylliant o ran hyrwyddo lles cadarnhaol ac iechyd corfforol wedi cael ei ategu gan y pandemig. Darparodd mynediad at weithgareddau diwylliannol a threftadaeth ar-lein seibiant i bobl ledled Cymru yn ystod cyfnod ansicr a phwysleisiodd y cyrhaeddiad eang a dwfn sydd gan lyfrgelloedd cyhoeddus wrth iddynt ddarparu mynediad at bob math o wybodaeth.<sup>4</sup>

Er mwyn darparu gwasanaeth yn ystod y pandemig, bu rhaid i lyfrgelloedd addasu eu harlwy yn gyflym. Ymatebodd y gwasanaethau yn rhagweithiol i sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion yr holl gwsmeriaid o dan amgylchiadau anodd dros ben. Roedd y mesurau newydd a gyflwynwyd yn cynnwys:

- caniatáu adnewyddu benthyciadau yn awtomatig ar draws yr holl wasanaethau llyfrgell yng Nghymru.
- rhoi dirwyon heibio, naill ai'n barhaol neu dros dro.
- ehangu'r adnoddau oedd ar gael ar-lein. Cafodd y cynnydd yn y galw ei ateb drwy £500 mil o gyllid gan Lywodraeth Cymru i brynu adnoddau.
- creu cynnwys digidol newydd a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd ar-lein drwy sesiynau amser stori ac amser rhigymau. Roedd y sesiynau hyn yn rhoi cyfle i blant ynysig, oedd yn methu â mynd i'r ysgol, a'u rhieni i fynegi eu hunain.
- cyflwynwyd sesiynau Cymraeg ar-lein gan lawer o awdurdodau. Roedd y sesiynau i blant yn cynnwys stori, sgwrs (gyda'r hwylusydd a'r pypedau) yn canu rhigymau traddodiadol a rhai mwy newydd, drwy gyfrwng y Gymraeg. Cafwyd adborth cadarnhaol gan rieni oedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymryd

<sup>2</sup> [BorrowBox – Your library in one app](#)

<sup>3</sup> [Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU \(llyw.cymru\)](#)

<sup>4</sup> [CCV Covid Report A4 AW \(culturehive.co.uk\)](#)

rhan gyda'u plant mewn sesiynau byw yn hytrach na sesiynau oedd wedi cael eu recordio ymlaen llaw.

- cynnig sesiynau hel atgofion ar-lein i breswylwyr cartrefi gofal. Roedd y rhain yn cynnwys hanesion, ffotograffau, a delweddau eraill i annog sgysiau a hel atgofion. Ysbrydolai'r sesiynau hyn y preswylwyr i siarad â'u gofalwyr ac a'i gilydd, ac â staff y llyfrgell a chafodd y sesiynau effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl y rhai a gymerodd ran.
- aeth llawer o staff y tu hwnt i'r hyn a ddisgwyliid yn arferol i gadw mewn cysylltiad â chwsmeriaid mwy agored i niwed, gan wneud galwadau ffôn cyfeillio i gwsmeriaid bregus, oedd yn gwarchod eu hunain.
- cyflwyno loceri clicio a chasglu digidol, hunanwasanaeth, mewn rhai gwasanaethau i alluogi cwsmeriaid i gadw eitemau a'u casglu o'r locer ar amser oedd yn gyfleus iddynt hwy.
- cynnig pecynnau Dechrau Da Bookstart a Babanod a Blynyddoedd Cynnar i deuluoedd babanod a phlant ifanc drwy'r gwasanaeth llyfrgell tra roedd gwasanaethau wyneb yn wyneb ymwelwyr iechyd yn cael eu rhoi heibio dros dro.
- Ni allai llyfrgelloedd gynnig Sialens Ddarllen yr Haf yn y ffordd arferol. O ganlyniad, bu staff mewn llyfrgelloedd yn cydweithio ag ysgolion lleol, clybiau gwyliau a phartneriaid i ymgysylltu â phlant a'u hannog i ymuno â'r Sgwad Gwirion. Er mwyn ei gwneud yn hawdd ac yn ddiogel i blant gymryd rhan, cafodd bagiau Sialens Ddarllen yr Haf eu pacio ymlaen llaw a'u dosbarthu drwy rwydwaith y llyfrgell, cynlluniau chwarae haf a chlybiau gwyliau.
- mynd i'r afael â thlodi mislif gyda chynhyrchion misglwyf rhad ac am ddim, nid yn unig o ganghennau, ond fel dewis ar y gwasanaeth clicio a chasglu/danfon i'r cartref, gan gynnwys cynhyrchion ecogyfeillgar y gellid eu hailddefnyddio.
- adleolwyd nifer o staff llyfrgell drwy gydol 2020/21 a buont yn darparu cymorth i deuluoedd oedd yn hunanynysu drwy ddsbarthu bwyd a phresgripsiynau. Mae darparu gwybodaeth ddibynadwy a chywir yn ganolog i waith llyfrgell, ac roedd y sgiliau hyn, ynghyd â sgiliau cyfathrebu a gwrando effeithiol, yn hanfodol yn yr amgylchedd hwn. Roedd llyfrgellwyr fel gweithwyr proffesiynol dibynadwy yn gallu cefnogi eu cwsmeriaid yn effeithiol.
- wrth i adeiladau agor, darparodd gwasanaethau deithiau rhithwir ar-lein o amgylch adeiladau'r llyfrgell fel y gallai darpar gwsmeriaid weld y trefniadau mynediad a'r cyfleusterau oedd ar gael, megis toiledau.

Dangosir effaith gadarnhaol y camau arloesol hyn yn glir yn yr adborth ganlynol oddi wrth gwsmeriaid llyfrgelloedd:

*“What a lifeline the service is, thank you for all your support in these terrible times.”*

*“The library has kept me sane; I rely totally on my library books.”*

*“The call and collect service has been a lifeline. My hearing has rapidly deteriorated so all I have is my books.”*

*“Receiving a phone call from the library has been the best news since the lockdown, it was so lovely to hear a friendly voice. They even helped me access some e-books on my i-pad. A wonderful thing. I cannot wait to get back in my library though.”*

*“Reading has kept me sane during these difficult times. I was overjoyed to hear when the library were able to offer the [order and collect] service.”*

*“The children love their weekly trip to the library for their packs and are excited to see what’s been selected, they have so little to look forward to at the moment.”*

Bu cyllid ychwanegol o fwy na £1.5 miliwn, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020/21 allan o Gronfa Cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru a Chronfa Gwasanaeth Diwylliannol ar gyfer Llywodraeth Leol, yn gyfrwng i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru gyflwyno mentrau newydd a chynorthwyo staff i ennill sgiliau newydd. Darparodd prosiect Estyn Allan, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, raglen hyfforddi ar draws sector y llyfrgelloedd cyhoeddus i alluogi staff i ddatblygu'r wybodaeth a'r hyder i gyflwyno gweithgareddau digidol dwyieithog. Roedd yr hyfforddiant yn cwmpasu ystod eang o bynciau i alluogi staff i ymgysylltu â chymunedau ar-lein, ffilmio a recordio digwyddiadau a gweithgareddau ar-lein ac yn bersonol, recordio a darlledu podlediadau a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chynulleidfaoedd. Nododd aelod o staff o Sir Ddinbych:

*“Being part of the Estyn Allan project has been an excellent experience which has benefitted both my personal and professional development. Through participation in online sessions with industry professionals I have been able to gain specialist skills and knowledge relating to the use of digital equipment for marketing and content creation. As a result, my digital confidence levels have increased significantly, and I have applied this new learning through the creation of new online media content for Denbighshire Libraries as well as working to enhance the social media presence of the same. Working as part of the Estyn Allan team has opened up new links between Denbighshire Libraries and others across Wales and allowed the sharing of ideas and resources on a scale which would otherwise not have been possible. Going forward, I hope to share my learning with my colleagues in Denbighshire and strive towards further enhancing my digital skills “.*

Arweiniodd y fenter hefyd at lansio gwasanaethau digidol dwyieithog newydd a rhai Cymraeg penodol. Cydnabuwyd llwyddiant Estyn Allan â gwobr Tîm Llyfrgell y Flwyddyn gan Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgell a Gwybodaeth (CILIP) Cymru ar gyfer 2021.

Prynodd llawer o wasanaethau lechi (*tablets*) i'w rhoi ar fenthyg i gwsmeriaid oedd heb fynediad at ddyfais gartref. Gellid llwytho cynnwys ymlaen llaw ar y llechi hyn neu

apiau llyfrgell i'w gwneud yn bosibl cael mynediad at e-lyfrau, e-lyfrau llafar, e-gylchgronau a phapurau newydd, a gellid eu galluogi â Wi-Fi i'r rhai oedd heb fynediad i'r rhyngwyd gartref. Roedd hyn yn cael ei werthfawrogi'n arbennig ar adeg pan oedd plant yn cael eu haddysgu gartref gan rieni. Symudodd gwasanaethau grwpiau llyfrau a gweithgareddau eraill ar-lein hefyd, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau arloesol i gynnal brwdfrydedd ac ymgysylltu yn yr amgylchedd rhithwir.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan wasanaethau llyfrgell unigol ledled Cymru yn dangos yn glir bwysigrwydd staff llyfrgelloedd. Mae'r astudiaethau achos a ddarparwyd yn amlinellu'n glir sut yr aeth staff gam ymhellach i gefnogi eu cwsmeriaid tra'n dioddef effeithiau'r pandemig eu hunain. Dangosodd staff wytnwch, hyblygrwydd a thosturi ac fe wnaethant weithio'n effeithiol gydag amrywiaeth o gydweithwyr i gefnogi'r aelodau o'u cymunedau oedd yn y sefyllfaoedd mwyaf ynysig. Mae staff cyfeillgar, gweithgar a brwdfrydig wrth galon pob gwasanaeth ledled Cymru, ac maent yn amlwg yn deall eu cwsmeriaid. Dywedodd rhai unigolion, pan oeddent yn gofyn i'r staff ddewis eu llyfrau ar eu cyfer yn ystod y pandemig, eu bod yn gweld y dewis yn well na phan oeddent yn pori eu hunain. Mynegodd cwsmer ym Merthyr Tudful yn gryno y gwerth y mae cwsmeriaid yn ei osod ar staff eu llyfrgell:

*“Library staff are resilient, kind, caring, adaptable and almost in the realms of superhero.”*



## **Adroddiadau Gwasanaethau Unigol**

Dylid darllen yr adroddiadau gwasanaeth unigol isod yng nghyd-destun effaith ehangach y pandemig a'r cyfyngiadau penodol ar wasanaethau llyfrgell.

Parhaodd gwasanaethau llyfrgell ledled Cymru i gynnal eu dyletswyddau statudol yn ystod 2020/21. Gyda chau adeiladau ffisegol, fe wnaeth pob gwasanaeth yn amlwg weld gostyngiad dramatig yn nifer yr ymwelwyr a nifer y llyfrau ffisegol a fenthyciwyd. Ar gyfartaledd roedd y gostyngiad yn y llyfrau a roddwyd ar fenthyc tua 80%. Collodd rhai gwasanaethau aelodau llyfrgell hefyd. Fodd bynnag, cafodd y gostyngiad yn y defnydd corfforol ei wrthbwyso gan yr adnoddau digidol a ddarparwyd, megis e-lyfrau ac e-gylchgronau a welodd gynnydd aruthrol yn y galw.

Cyn belled ag yr oedd modd, cafodd gweithgareddau a fyddai fel arfer wedi cael eu darparu mewn adeiladau llyfrgell hefyd eu symud ar-lein. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod gallu gwasanaethau llyfrgell i ymateb i'r pandemig yn amrywio ac yn dibynnu, er enghraifft, ar y graddau y cafodd staff eu hadleoli i gefnogi'r ymateb i'r pandemig, ac ar natur adeiladau llyfrgelloedd. Er enghraifft, ni allai pob pwynt gwasanaeth ailagor na gweithredu oherwydd cyfyngiadau ffisegol a'r anallu o ganlyniad i gadw pellter cymdeithasol.

## **PEN-Y-BONT AR OGWR (YMDDIRIEDOLAETH DDIWYLLIANNOL AWEN)**

Darperir gwasanaethau llyfrgell ym Mhen-y-bont ar Ogwr gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ar ran yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 11 cangen ac 1 cerbyd cludo i'r cartref, gyda 99% o'r trigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell.

### **Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell**

Rhoddodd gwasanaeth llyfrgelloedd Awen dystiolaeth fanwl i ddangos ei fod yn parhau i gwrdd â'r holl hawliau craidd.

Cynyddodd lawrlwythiadau digidol o 38% ers 2019/20. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn un o ddim ond saith ardal awdurdod lleol i weld cynnydd yn aelodaeth llyfrgelloedd yn ystod 2020-21.

Cafwyd gostyngiad o 30% yn y gyllideb ddeunyddiau yn 2020/21. Fodd bynnag, nododd y gwasanaeth fod llawer o gyflenwyr llyfrau wedi cau neu'n methu â danfon am rannau helaeth o 2020/21 ac roedd y gwariant ar ddeunyddiau yn canolbwyntio ar feysydd penodol, megis y casgliad plant. Er hynny, cafwyd gostyngiad cyffredinol o 35% ers 2017/18. Mae'r defnydd o ddeunyddiau yn tueddu i fod tua'r canolrif ar gyfer Cymru er bod y gyllideb ddeunyddiau fesul 1000 o'r boblogaeth yn y chwarter isaf. Mae'r gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg wedi aros yn sefydlog ar 3%.

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i staffio, ac mae cyfanswm y staff y nodwyd eu bod yn meddu ar gymwysterau llyfrgell cydnabyddedig yn parhau i fod yr un fath, a hwn yw'r nifer uchaf yng Nghymru.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- O ganlyniad i uno Booklink a Gwasanaethau'r Llyfrgell Deithiol yn gynnar yn 2020 i greu 'Llyfrau ar Olwynion' llwyddodd Awen i ymateb yn gyflym iawn i sicrhau bod cyflenwadau'n cael eu danfon i'r cwsmeriaid mwyaf agored i niwed ac ynysig.
- Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i gyflwyno amrywiaeth o sesiynau ar-lein, gan gynnwys sesiynau 'bownsio a rhigymau' a '*dungeons and dragons*'. Bu hyn o gymorth i barhau i ymgysylltu ag aelodau presennol. Bydd Awen yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi unigolion nad oes ganddynt y sgiliau digidol i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.
- Gwnaeth cymorth gan gronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 y gwaith o adnewyddu llyfrgell Porthcawl yn bosibl. Arweiniodd hyn at le mwy hyblyg a galluogodd y gwasanaeth i gynnig gweithgareddau a digwyddiadau yn ddiogel wrth i'r adeiladau ailagor.
- Datblygiad allweddol hefyd oedd gwefan newydd. Crëwyd taith rithwir arloesol ar gyfer 8 llyfrgell sy'n golygu y gall cwsmeriaid fynd ar daith o amgylch y

llyfrgelloedd cyn ymweld. Mae ychwanegu fideos 'sut-i' a chalendr digwyddiadau yn cynnig cyflwyniad croesawus i'r gymuned leol.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Mae'r astudiaethau achos (enghreifftiau isod) yn dangos yr effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar unigolion a chymunedau, yn enwedig o ran iechyd a lles a sgiliau digidol.

Yn y dyfodol agos, mae'r gwasanaeth yn bwriadu cwblhau datblygiad Neuadd y Dref Maesteg a gosod y llyfrgell fel canolbwynt ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Ochr yn ochr â hyn, bydd datblygu strategaeth llyfrgell newydd yn sicrhau bod y digwyddiadau a'r gweithgareddau a gynigir gan y llyfrgell yn parhau i fod yn berthnasol i'r gymuned leol.

## **Crynodeb**

Mae staff rhagweithiol ac ymgysylltiol Awen wedi galluogi'r gwasanaeth i barhau i ganolbwyntio drwy flwyddyn anodd. Mae cynllunio gofalus wedi sicrhau bod y gwasanaeth wedi aros yn gyson ac yn sefydlog. Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu sylfaen gadarn i adeiladu ar lwyddiannau, adennill cyn-gwsmeriaid, a chyrraedd rhai newydd.

## **Astudiaeth Achos 1**

Cafodd y cyfyngiadau a osodwyd ar y gwasanaeth llyfrgell effaith sylweddol ar gwsmeriaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae gan y gwasanaeth berthynas ardderchog gyda chwsmeriaid y llyfrgell i sicrhau ei fod yn cwrdd â'u hanghenion. Cynyddodd y pandemig hyd yr amser yr oedd yn rhaid disgwyl am lyfrau y gofynnwyd amdanynt, o ganlyniad i atal dros dro Books4U, benthyciadau rhwng llyfrgelloedd a danfoniadau gan gyflenwyr.

Mae un cwsmer yn defnyddio'r llyfrgell ar gyfer ei hymchwil i hanes lleol a theuluol a chafodd y broblem hon ar ôl gofyn am eitem arbenigol gan y gwasanaeth. Ychydig cyn y Cyfnod Clo cyntaf ym mis Mawrth 2020, dechreuodd yr unigolyn ymchwilio i hanes ei theulu. Yr eitem y gofynnwyd amdani oedd *'Hanes Teuluol a Bywyd Cymunedol yng Ngogledd Sir Gaerfyrddin'* gan David T R Lewis. Gan fod y llyfr hwn ar bwnc hanes lleol oedd yn benodol i Sir Gaerfyrddin, nid oedd gan Awen gopi.

Gwelsom fod gan Wasanaeth Llyfrgell Sir Gaerfyrddin ychydig o gopïau a'u bod yn fodlon eu rhoi ar fenthyg. Fodd bynnag, oherwydd y cyfyngiadau, bu'n anodd i ni gael copi. Rhoesom y wybodaeth ddiweddaraf i'r cwsmer ac esbonio y byddem yn cael teitl y llyfr cyn gynted â phosibl.

Ym mis Mawrth 2021 ymunodd Gwasanaeth Llyfrgell Sir Gaerfyrddin â chynllun Books4U. Gofynasom am y llyfr, a hwn oedd y llyfr cyntaf un a dderbyniwyd trwy Books4U o Sir Gaerfyrddin.

Mae'r cwsmer bellach yn edrych ymlaen at ddarllen y llyfr a chasglu'r wybodaeth y mae arni ei hangen i barhau â'i hymchwil i hanes y teulu. Roedd y cwsmer yn hapus

iawn gyda'r canlyniad. Roedd hi mor hapus nes iddi ofyn inni dynnu llun ohoni gyda'r llyfr yn y llyfrgell, er mwyn iddi allu ei anfon at y teulu.

Mae'r cyfyngiadau a osodwyd ar y gwasanaeth llyfrgell wedi cael effaith sylweddol ar ein cwsmeriaid yn Llyfrgelloedd Awen. Mae gennym berthynas ragorol gyda'n noddwyr ac rydym bob amser yn gwneud yr ymdrechion gorau posibl i'w helpu i gael yr hyn y mae arnynt ei angen, boed yr angen hwnnw'n adloniant, gwybodaeth, neu sgwrs gyfeillgar.

## **Astudiaeth Achos 2**

Rhoddodd y pandemig ddiwedd ar weithgareddau allgymorth personol dros dro, gan gynnwys ymweliadau â chanolfannau dydd a chartrefi gofal. Cysylltodd staff y llyfrgell â chartrefi gofal yn yr ardal i gynnig sesiynau adrodd hanesion a hel atgofion drwy gyfrwng Zoom. Derbyniodd nifer o gartrefi gofal y cynnig.

Cynhaliwyd sesiynau i breswylwyr gan ddefnyddio Zoom ac roeddent yn cynnwys hanesion, ffotograffau a delweddau eraill i ysgogi sgysiau a hel atgofion. Rhoddodd hyn newid i breswylwyr o'r drefn arferol, amser i ddod at ei gilydd a chymryd rhan mewn gweithgaredd newydd a gweld wynebaw newydd. Cyflwynodd staff y llyfrgell storïau a cherddi newydd i'r preswylwyr a defnyddio adnoddau hanes teulu i rannu ffotograffau a chyfryngau eraill oedd yn gwneud y sesiynau'n rhyngweithiol.

Dywedodd aelod o staff y Cartref Gofal:

*“Thank you for the session today. I have spoken with some of the service users that were present and they expressed that they enjoyed. We talked more about gardening and herbs, they agreed that they would like to do some more activities related to this and it has been inspired by the stories you’ve told today. I have found that these sessions are also beneficial for relaxation as they concentrate on listening and it helps them feel calm. I know you hadn’t asked for feedback but I just wanted to let you know the positive impact the stories are having and that we appreciate you taking the time to do these with us.”*

## **BLAENAU GWENT (Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin)**

Darperir gwasanaethau llyfrgell ym Mlaenau Gwent gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ar ran yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 6 changen a 2 gerbyd danfon i'r cartref, gyda 98% o'r trigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell. Mae'r hwb cymunedol fel model darparu yn parhau i fod yn llwyddiant, gan alluogi'r gwasanaeth llyfrgell i ddatblygu cysylltiadau cryf â phartneriaid i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau er budd y gymuned.

### **Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell**

Dywedodd gwasanaeth llyfrgell Aneurin ei fod yn parhau i gwrdd â'r holl hawliau craidd.

Mae'n galonogol gweld bod y gyllideb ddeunyddiau wedi cynyddu o 18% ers 2019/20, gyda chynnydd o 65% ers 2017/18. Ni fu newidiadau yn y lefelau staffio yn ystod 2020/21, sy'n parhau'n isel ac yn effeithio ar allu'r gwasanaeth i wneud rhagor. Cyfanswm y staff y nodwyd bod ganddynt gymwysterau cydnabyddedig yw'r isaf yng Nghymru. Mae Blaenau Gwent yn un o bymtheg awdurdod a welodd ostyngiad yn aelodaeth llyfrgelloedd yn 2020/21 o gymharu â 2019/20 oherwydd y pandemig.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Gwnaeth staff 640 o alwadau lles i gwsmeriaid agored i niwed yn ystod pythefnos cyntaf y cyfnod clo.
- Cafodd y gwasanaeth danfon i'r cartref effaith hynod o gadarnhaol ar y gymuned leol, gan gyflenwi stoc ychwanegol i ysbytai lleol a chanolfannau cymunedol sy'n cefnogi pobl unig a bregus.
- Roedd y cynllun 'galw a chasglu' newydd yn hynod boblogaidd.
- Llwyddodd y gwasanaeth i sicrhau mynediad parhaus at adnoddau digidol a hwyluso ymaelodi ar-lein o ddechrau'r pandemig, gyda gweithdrefnau ymuno mwy hyblyg.
- Cynyddodd lawrlwythiadau digidol 79% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Rhoddodd y gwasanaeth ddirwyon heibio dros dro, gan wneud y gwasanaeth yn fwy deniadol i gwsmeriaid.
- Cyflwynodd y gwasanaeth ddigwyddiadau digidol oedd yn helpu pobl i deimlo eu bod mewn cysylltiad â'u cymunedau lleol. Gan weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, roedd y cyrsiau a gynigiwyd yn cynnwys ysgrifennu creadigol a chymorth cyllidebu ar gyfer cymunedau lleol.
- Gwelodd y staff fod cynnydd yn yr ymholiadau ynghylch hanes teulu a hanes lleol a buont yn gweithio gyda gwirfoddolwyr yn y maes hwn i ddarparu cymorth dros y ffôn ar gyfer ymholiadau manwl a chyfeirio unigolion at adnoddau digidol, megis mynediad o'r cartref i Ancestry a FindMyPast.
- Parhaodd y bartneriaeth gyda Cymraeg i Blant gyda sesiynau ioga babanod a thyllino babanod ar-lein.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Dangosodd gwasanaeth llyfrgell Hamdden Aneurin yr effaith y mae'n ei chael ar unigolion drwy'r astudiaethau achos a gyflwynwyd (enghraifft isod) gan gynnwys y budd i iechyd a lles pobl, eu hyder, lleihau'r teimladau o fod mewn sefyllfa ynysig, a chefnogi datblygiad sgiliau digidol. Mae'r gwaith partneriaeth gyda sefydliadau allweddol yn parhau i fod yn gryfder yn y gwasanaeth ac mae wedi bod yn ffactor allweddol wrth alluogi Hamdden Aneurin i ateb yr anghenion o fewn cymunedau a chyflwyno gweithgareddau priodol.

Mae ymrwymiad hirdymor Cyngor Blaenau Gwent ac Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin i sefydlu model hwb cymunedol ym mhob llyfrgell ar draws yr awdurdod yn parhau yn ei le. Bydd y gwasanaeth yn parhau i weithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod llyfrgelloedd yn rhan hanfodol o gynlluniau adfer lleol yn dilyn Covid. Mae adleoli llyfrgell Abertyleri i ganol y dref, gan ei chydleoli gyda Dysgu Oedolion yn y Gymuned a sefydliad celfyddydol lleol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Bydd y newidiadau hyn yn galluogi'r gwasanaeth llyfrgell i gyflawni ei weledigaeth o "wella cyfleoedd bywyd pobl, gan ysbrydoli a chyfoethogi bywydau drwy ddarparu gwasanaethau llyfrgell o safon uchel sy'n berthnasol ac yn hygyrch i bawb."

## **Crynodeb**

Croesewir y cynnydd diweddar yn lefel y buddsoddiadau. Mae'r staff rhagweithiol a'r partneriaethau yn dod â manteision sylweddol i ystod eang o unigolion a chymunedau a chydag adnoddau ychwanegol gellid cyflawni mwy fyth er budd y gymuned leol yn y blynyddoedd i ddod.

## **Astudiaeth Achos**

Mae cwsmer o Lyn Ebwy yn ddiolchgar am y gefnogaeth a dderbyniodd gan ei llyfrgell leol i helpu i sefydlu ei busnes ei hun. Cysylltodd y cwsmer â'r llyfrgell ym mis Hydref 2020 i ofyn am rai teitlau ffeithiol arbenigol. Llwyddodd y llyfrgell i ddod o hyd i'r holl lyfrau y gofynnwyd amdanynt a phrynu teitlau ar gyfer y cwsmer er mwyn sicrhau ei bod yn cael y gefnogaeth angenrheidiol. Roedd y cwsmer hefyd yn defnyddio'r llyfrgell i ddefnyddio cyfrifiadur, llungopïo, sganio ac argraffu Wi-Fi. Meddai'r cwsmer:

*"The library has been a great help with setting up my own business. I am setting up an indoor play centre, I have been able to borrow books on health and safety, ideas for activities, childcare, and accounting, it has saved me so much money. Using all the IT facilities and having a space to study, was so helpful to me, when I have a young family at home. It was great to be able to book a study space and have some peace and quiet, when there are five of us, at home. I also feel really safe in the library, knowing that all the equipment is cleaned, and the books quarantined etc."*

## CAERFFILI

Darperir gwasanaethau llyfrgell yng Nghaerffili gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 18 cangen a 2 gerbyd danfon i'r cartref, gyda 98% o'r trigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell. Fel yr adroddwyd yn 2019/20, mae 11 o'r 18 llyfrgell bellach yn fannau gwasanaeth gydag un aelod o staff.

### Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell

Dywedodd Caerffili ei fod yn cwrdd â'r holl hawliau craidd.

Yn yr un modd â gwasanaethau llyfrgell eraill, gwelodd ostyngiad anochel mewn benthycwyr gweithredol a chyfansymiau aelodaeth llyfrgelloedd, er bod yr olaf wedi deillio o symud cofnodion cwsmeriaid i'r system newydd o reoli llyfrgelloedd Cymru gyfan a glanhau data.

Bu gostyngiad o 8% yn y gyllideb ddeunyddiau yn 2021. Nodir gan y gwasanaeth bod Covid wedi effeithio ar bryniant stoc, a'i fod wedi cwrdd ag anghenion y gymuned drwy reoli'r gyllideb yn ofalus a phrynu copïau ychwanegol o'r teitlau poblogaidd er mwyn ateb y galw. Mae'r gwasanaeth yn parhau'n ymrwymedig i roi'r flaenoriaeth i blant ac mae 21% o gyfanswm y gyllideb ddeunyddiau ar gyfer plant. Fodd bynnag, bu gostyngiad cyffredinol o 37% yn y gyllideb ddeunyddiau ers 2017/18.

Ni fu newidiadau sylweddol yn y staffio, gyda chyfanswm cyffredinol y staff fesul 10,000 o bobl yn aros ar y lefel ganolrifol yng Nghymru. Profodd y gwasanaeth nifer o heriau yn ystod 2020-21 gyda cholli uwch reolwr gwerthfawr ac effaith adleoli staff.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Mae'r gwasanaeth wedi aros yn wydn, drwy hybu gwasanaethau digidol, megis clybiau Lego a sesiynau amser stori i blant.
- Roedd gwasanaeth dosbarthu i'r cartref *LibraryLink* yn wasanaeth gwerthfawr i lawer, yn arwain at wella lles cwsmeriaid.
- Adleoliwyd staff y llyfrgell i helpu i gefnogi gwasanaethau hanfodol. Roedd y rhain yn cynnwys darparu prydau ysgol am ddim, Profi, Olrhain, Amddiffyn (TTP), Canolfan Gyswllt Gwasanaethau Cwsmeriaid a'r tîm oedd yn darparu gwasanaethau cyfeillio.
- Gweithredodd Caerffili gynllun 'archebu a chasglu', lle bu arbenigedd staff wrth ddewis adnoddau priodol ar gyfer cwsmeriaid yn ysbrydoliaeth i lawer i archwilio genres newydd.
- Prynodd y llyfrgell ddeunyddiau o gasgliad Empathi'r Asiantaeth Ddarllen i gefnogi iechyd a lles plant ac oedolion ifanc.
- Trwy gymorth gan gronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 prynodd y gwasanaeth bedwar gliniadur i ymestyn ac adeiladu ar y cynnig digidol i breswylwyr nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd na dyfeisiadau

digidol. Mae staff wedi canfod cyfleoedd drwy weithio gydag eraill fydd yn galluogi aelodau'r llyfrgell i elwa ar gyngor a chymorth rhithwir gan bartneriaid allweddol yn y cyngor.

- Gwelodd y gwasanaeth gynnydd o 68% mewn benthyciadau electronig ers 2019/20.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Mae'r astudiaethau achos (enghreifftiau isod) yn dangos yr effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar unigolion a chymunedau, yn enwedig o ran dysgu, iechyd a lles a sgiliau digidol plant.

Mae Gwasanaethau Llyfrgell Caerffili yn parhau i apelio'n eang at gwsmeriaid a rhai nad ydynt yn gwsmeriaid fel y dangoswyd yn Adroddiad Ymgynghori 'Sgwrs Caerffili' Ionawr 2021. Mae'r canlyniadau'n dangos bod 55% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau llyfrgell gwahanol oedd yn cael eu darparu gan lyfrgelloedd yn ystod COVID a rhestrodd ymatebwyr y llyfrgelloedd fel gwasanaeth rheng flaen allweddol pwysig y mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio arno wrth i gymunedau wella ar ôl y pandemig. Yn y dyfodol agos, bydd y gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar gyfleoedd i ddarparu dulliau gwahanol o ddarparu gwasanaethau i drigolion.

## **Crynodeb**

Mae Caerffili wedi mabwysiadu dull rhagweithiol o ddarparu gwasanaethau, gan weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddod â manteision i'w gwsmeriaid. Os gellir cynnal lefelau buddsoddi bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i gynyddu ei gyrhaeddiad ac ailgysylltu â'i gwsmeriaid na wnaeth ddefnyddio'r gwasanaeth yn ystod y pandemig.

## **Astudiaeth Achos 1**

Oherwydd effaith y pandemig, symudodd Sialens Ddarllen yr Haf ar-lein yn ystod 2020. Mae hwn yn gynllun hollbwysig ac yn annog plant i ddarllen llyfrau llyfrgell drwy gydol gwyliau'r haf.

Mae teulu sy'n cynnwys 2 fachgen ifanc yn ymwelwyr cyson â Llyfrgell Caerffili. Nododd y teulu mai'r gweithgaredd yr oeddent yn ei golli fwyaf oedd eu hymweliadau rheolaidd â'r llyfrgell. Roedd y llyfrgell ar gau oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Roedd y ddau fachgen wedi cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf ers blynnyddoedd lawer, ac roedd wedi dod yn rhan bwysig o'u trefn haf. Dywedodd mam y bachgen ei bod yn athrawes gymwysedig a'i bod yn deall pwysigrwydd darllen a galluogi'r plant i ddewis eu llyfrau eu hunain.

Dywedodd y llyfrgell wrth y cwsmer mai dim ond yn rhithwir yr oedd Sialens Ddarllen yr Haf yn cael ei chyflwyno. Cwblhaodd y teulu'r cofrestriad ar-lein a rhoi'r adborth canlynol:

*“Whilst the boys enjoyed taking part and liked the little games, they did miss the prizes the library would give them, so I bought my own little treats to reward them instead. Unfortunately, we did not have access to actual library books for the challenge, but we signed up to Borrowbox and the children*



*downloaded a range of e-books. My son was used to using his iPad to read as he had been using it for home-schooling. As my other son preferred interactive lift-the flap type books at the time, Borrowbox was not quite as popular with him, so he was thrilled when we learned that he would be eligible for the home delivery service. We filled out the application form with his preferences and the wonderful staff chose a collection of books and delivered them to the door. We all made use of the Order & Collect service when it started in September – the staff continued to choose a selection of books for the children whilst myself and my other son enjoyed browsing the library catalogue and ordering for ourselves. We had some lovely library freebies when we picked up our books, including a free pen for myself and bags for each of the boys. We were also able to book browsing appointments in the library. Although regular users before the pandemic, both boys had forgotten what the library was like, and the first appointment was filled with exploring the children's area and getting familiar with the surroundings again. We are so lucky to have such a fantastic facility in our town and we always receive a warm welcome from the staff. We cannot wait to resume our regular visits and look forward to finding some amazing books to read for the Summer Reading Challenge this year.”*

## **Astudiaeth Achos 2**

Gweithredwyd gwasanaeth cyfeillio tîm Caerffili yng Nghaerffili. Roedd hyn yn sicrhau bod trigolion bregus yn cael eu cefnogi. Symudwyd cynorthwyydd llyfrgell i'r tîm hwn i gefnogi saith cartref bregus. Addasodd yr aelod o staff yn fuan i'w rôl newydd, gan fod nifer o sgiliau yn drosglwyddadwy. Roedd hyn yn cynnwys sgiliau cyfathrebu a gwrando drwy alwadau ffôn rheolaidd i breswylwyr, sgiliau trefnu i siopa i saith teulu a sgiliau tosturi a dealltwriaeth.

Roedd yr adborth gan gwsmer a gefnogwyd yn cynnwys:

*“I spend days and days not seeing a soul and then you came into my life, and it was like a ray of sunshine.”*

Mae'r aelod o staff wedi cadw mewn cysylltiad wythnosol â'r unigolyn ac yn awr yn rhannu pryd siop sglodion yn aml.

## CAERDYDD

Darperir gwasanaethau llyfrgell yng Nghaerdydd gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 21 cangen, 1 llyfrgell deithiol ac 1 cerbyd danfon i'r cartref, gyda 99% o drigolion yn byw o fewn 2 filltir i lyfrgell.

### Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell

Dywedodd Caerdydd ei bod yn cwrdd â'r holl hawliau craidd.

Gyda'r newid i wasanaethau ar-lein, gwelodd Caerdydd gynnydd sydyn mewn ymweliadau â gwefannau o 65% ers 2019/20 a chynnydd sylweddol yn y defnydd o e-adnoddau. Mae Caerdydd yn un o bymtheg awdurdod a welodd ostyngiad yn aelodaeth llyfrgelloedd yn 2020/21 o gymharu â 2019/20 oherwydd y pandemig.

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r gyllideb ddeunyddiau, gyda'r gwariant fesul 1000 o'r boblogaeth yn parhau i fod ychydig yn uwch na'r lefel ganolrifol yng Nghymru. Cynhaliwyd adolygiad o flaenoriaethau stoc hefyd yn gynnar yn y flwyddyn, gan ddargyfeirio adnoddau i ddarpariaeth ddigidol mewn ymateb i alw cwsmeriaid. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi'n gryf mewn adnoddau plant, ac mewn deunyddiau Cymraeg. Mae'r gwariant ar adnoddau Cymraeg yn parhau i fod yn uwch na'r lefel ganolrifol yng Nghymru.

Mae gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn parhau i weithredu fel tîm integredig. Ni fu newidiadau sylweddol yn y staffio. Mae Caerdydd wedi parhau i fuddsoddi mewn hyfforddi a datblygu staff drwy sesiynau rhithwir drwy gyfrwng academi ar-lein.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Bu cynnydd anhygoel o 464% mewn lawrlwythiadau digidol yn 2020-21 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Cyflwynwyd gwasanaeth clicio a chasglu a dosbarthwyd eitemau i'r rhai nad oeddent yn gallu ymweld â chanolfan i gasglu neu ddychwelyd eu llyfrau. Disgrifiwyd y gwasanaeth fel 'rhaff achub' gan lawer o ddefnyddwyr.
- Sefydlodd Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd ganolfan ddosbarthu banc bwyd i gefnogi'r ddarpariaeth banc bwyd ehangach yng Nghaerdydd.
- Mae'r gwasanaeth wedi darparu ystod eang o weithgareddau digidol drwy gydol 2020/21, gan gynnwys awr gymdeithasol, sesiynau hyfforddi swyddogaethol effaith isel, coginio cymunedol, awr arddio a Gweu a Chlonc.
- Mae Caerdydd wedi cynnig sesiwn 'darllen yn uchel' ddwyieithog wythnosol i oedolion yn fyw ar Facebook ac wedi hyrwyddo awduron a chyhoeddiadau Cymraeg lle bo modd.
- Galluogodd cymorth gan gronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 i Gaerdydd greu 5 stiwdio fach. Derbyniodd 27 o staff hyfforddiant mewn gweithredu'r offer digidol a brynwyd ac mae'r tîm hwn wedi gallu cynhyrchu

cynnwys digidol proffesiynol. Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar gyflwyno rhaglen o ddiwyddiadau hybrid.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Darparodd Caerdydd astudiaethau achos (enghraifft isod) yn dangos yr effaith gadarnhaol a gafodd y gwasanaethau digidol ac allgymorth ar iechyd a lles pobl, eu sgiliau a'u hymdeimlad o gymuned.

Mae'r gwasanaeth yn nodi y bydd llyfrgelloedd yn y dyfodol agos yn parhau i gydweithio â chydweithwyr iechyd i wella materion iechyd cyhoeddus. Bydd y bartneriaeth hon yn parhau i ddatblygu gan roi blaenoriaeth i ganlyniadau sy'n gyfeillgar i oed ac i blant. Bydd mentrau newydd yn cynnwys gwasanaeth cymorth lles newydd i gynorthwyo oedolion sy'n teimlo eu bod wedi eu hynysu'n gymdeithasol ac sydd angen help i reoli eu lles personol.

Caiff archwiliad mawr o ddaliadau stoc hefyd ei gynnal i sicrhau bod y stoc yn parhau i gwrdd ag anghenion cymunedau.

Rhoddir blaenoriaeth hefyd i ailddatblygu Hybiau llyfrgelloedd yn barhaus er mwyn cyflawni ymrwymadau a amlinellir yn y strategaeth llyfrgell ac i helpu pobl i gadw mewn cysylltiad a gwella eu lles cyffredinol.

## **Crynodeb**

Mae ffocws Caerdydd ar iechyd a lles wedi agor partneriaethau a chyfleoedd newydd. Canmolwyd y gwasanaeth gan lawer am y gefnogaeth a ddarperir i gwsmeriaid bregus. Drwy weithredu rhaglen weithgaredd digidol llwyddodd y gwasanaeth i estyn allan at gynulleidfa newydd a bu'n fuddiol i lawer o ddefnyddwyr. Os cynhelir lefelau buddsoddi, gall y gwasanaeth adeiladu ymhellach ar sylfaen sydd eisoes yn gryf.

## **Astudiaeth Achos**

Ers 8 Mehefin 2020 newidiodd model gweithredu'r Gwasanaeth Allgymorth o fod yn wasanaeth strwythuredig, rhanbarthol, wedi'i amserlennu, ac a oedd yn canolbwyntio ar gwsmeriaid fan y llyfrgell deithiol a'r gwasanaeth dosbarthu i'r cartref i fodel Clicio a Chasglu/Danfon eang a chynhwysol oedd yn cynnwys yr holl gwsmeriaid llyfrgell ar draws ardal Caerdydd.

Gan gydweithio'n agos â'r gwasanaeth Clicio a Chasglu oedd newydd ei greu a gwasanaeth y Llinell gyngor, bu staff Allgymorth am 4 diwrnod yr wythnos yn dosbarthu llyfrau i gartrefi unrhyw un oedd yn methu ag ymweld â chanolfan i gasglu neu ddychwelyd llyfrau yn bersonol. Bu staff allgymorth hefyd yn danfon Offer Amddiffyn Personol i sefydliadau gofal, ysgolion ac unigolion agored i niwed.

I ddechrau, roedd y gwasanaeth yn cynnwys y pedwar hwb llyfrgell craidd a agorodd yn ystod y pandemig ond wrth i gyfyngiadau COVID gael eu llacio, ehangwyd y gwasanaeth i 8 hwb oedd yn cwmpasu pob rhanbarth yn Sir Caerdydd. Ers dechrau'r gwasanaeth, mae staff Allgymorth wedi dosbarthu nwyddau i 4,991 o gwsmeriaid y llyfrgell. Mae'r gwasanaeth Clicio a Chasglu wedi cael ei ganmol gan lawer a'i werthfawrogi gan y bobl fregus y mae'n eu gwasanaethu.

## SIR GAERFYRDDIN

Darperir gwasanaethau llyfrgell yn Sir Gaerfyrddin gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 15 cangen, 3 llyfrgell deithiol a 4 cerbyd danfon i'r cartref, gyda 95% o drigolion yn byw o fewn 3 milltir i lyfrgell.

### Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell

Dywedodd Sir Gaerfyrddin ei bod yn cwrdd â'r holl hawliau craidd.

Fel gwasanaethau llyfrgell eraill, gostyngodd nifer y benthycwyr gweithredol, ond cynyddodd y defnydd ar-lein gyda chynnydd o 128% mewn lawrlwythiadau digidol.

Cafwyd gostyngiad bychan yn y gyllideb ddeunyddiau ers 2019/20 ac mae wedi gweld gostyngiad o 12% ers 2017/18. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi'n gryf mewn adnoddau plant. Mae gwariant ar adnoddau Cymraeg wedi cynyddu ers 2019/20, gyda'r ffigurau ar gyfer benthyciadau Cymraeg yn parhau i fod ymhell uwchlaw y canolrif yng Nghymru. Cynhaliodd y gwasanaeth sesiynau amser stori a chrefftau Cymraeg rheolaidd ar-lein drwy gydol 2020/21.

Ni fu newidiadau sylweddol yn y staffio ac mae'r ffigurau'n parhau i fod yn uwch na'r lefel ganolrifol yng Nghymru.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Datblygodd llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin wasanaeth detholiadau ysgolion yn ystod 2020/21. Gallai athrawon ofyn am flychau o lyfrau i'w benthycu oedd yn cefnogi'r cwricwlwm cenedlaethol yn ogystal â gofynion darllen er mwyn pleser ar gyfer y disgyblion yn eu hysgolion.
- Yn ystod y pandemig, parhaodd Sir Gaerfyrddin i gydweithio'n agos â phartneriaid lleol, gan hyrwyddo adnoddau electronig poblogaidd, megis mynediad yn y cartref i *Ancestry* a *PressReader*, gyda chynnydd mawr yn y defnydd.
- Roedd y gweithgareddau digidol a gynigiwyd yn ystod y cyfnodau clo yn cynnwys amrywiaeth o hanes teuluol, adrodd hanesion, crefft, sesiynau *makerspace* ar-lein i gasglu straeon o'r gymuned am eu profiad o Covid a'r cyfnodau clo.
- Galluogodd cymorth gan gronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 y gwasanaeth i brynu loceri o bell, sydd wedi galluogi Sir Gaerfyrddin i dreialu datrysiaid gwerthu digidol 24/7. Mae'r gwasanaeth yn nodi y bydd y loceri digidol yn y dyfodol agos yn galluogi trigolion i gael mynediad at stoc yn lleol ac yn ddiogel. Bydd cwsmeriaid yn gallu archebu eitemau gan ddefnyddio catalog y llyfrgell a chodi'r eitem o locer yn eu llyfrgell leol ar amser sy'n gyfleus iddynt eu hunain. Bydd hyn hefyd yn hwyluso oriau agor hirach mewn ardaloedd gwledig ac yn cynyddu cyrhaeddiad llyfrgelloedd yn Sir Gaerfyrddin.

- Cyflwynwyd cynllun ‘clicio a danfon’ i gynorthwyo cwsmeriaid, gan ddarparu cyswllt hanfodol ar gyfer rhai trigolion bregus.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Cyflwynodd y gwasanaeth astudiaethau achos (enghraifft isod) oedd yn dangos effaith y gwasanaeth ar y rhai oedd yn gaeth i'r tŷ, yn datblygu ymgysylltiad cymunedol a chwrdd ag anghenion pobl fregus yn y gymuned leol. Roedd y gwasanaeth dosbarthu ‘blwch o lyfrau’ i ysgolion lleol yn galluogi plant lleol i elwa ar ddeunyddiau darllen cyfoes o'r llyfrgell. Cynigiwyd gweithgareddau digidol ar y cyd â'r cynnig hwn, gan effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a lles plant lleol.

Mae Sir Gaerfyrddin yn bwriadu ymestyn gwasanaethau ymhellach yn y Llyfrgelloedd rhanbarthol drwy weithredu cynllun peilot Open+ yn Llyfrgell Caerfyrddin sy'n caniatáu i'r llyfrgell fod ar agor y tu hwnt i oriau arferol staff. Mae cynlluniau i ddatblygu menter lwyddiannus *Makerspace* hefyd yn parhau yn eu lle.

## **Crynodeb**

Mae Sir Gaerfyrddin wedi bod yn rhagweithiol mewn nifer o feysydd gan gynnwys gwasanaethau i blant ac ysgolion, a chyfleoedd digidol. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i berfformio'n dda. Bydd cynnal lefelau buddsoddi yn sicrhau y gall y gwasanaeth barhau i ddatblygu atebion arloesol a gwasanaethau newydd.

## **Astudiaeth Achos**

Bu Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin yn cefnogi ein hybiau ysgol yn ystod y pandemig. O ganlyniad i gau ysgolion, cysylltodd Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin â'r holl hybiau ysgol lleol i hyrwyddo eu gwasanaeth dosbarthu bocsys o lyfrau. Roedd y gwasanaeth hwn ar gael i gefnogi'r holl blant ac athrawon a oedd yn mynychu'r canolfannau.

Mae'r gwasanaeth fel arfer yn cefnogi pob ysgol leol drwy ddarparu llyfrau. Mae'r llyfrau hyn yn gysylltiedig â themâu dosbarth a deunydd darllen grŵp/unigol. Yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig, aeth Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin ati i ddarparu'r gwasanaeth hwn i bob hwb. Drwy ddarparu'r gwasanaeth hwn i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol, roedd y llyfrgell yn gallu cysylltu cymunedau a gwella lles. Cafodd Ysgol Felin-foel fudd aruthrol o'r gwasanaeth hwn gyda dros 300 o lyfrau yn cael eu dosbarthu i'r Hwb i gefnogi eu plant.

## CEREDIGION

Darperir gwasanaethau llyfrgell yng Ngheredigion gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 5 cangen a 3 llyfrgell deithiol gyda 81% o'r trigolion yn byw o fewn 3 milltir i lyfrgell.

### Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell

Fe wnaeth Ceredigion gwrdd â 10 o'r 12 hawl craidd yn llawn ond ni chyflawnodd 2 (ar arolygon cwsmeriaid a strategaeth llyfrgell).

Fel gyda gwasanaethau llyfrgell eraill, gwelodd ostyngiad anochei mewn benthycwyr gweithredol a chyfansymiau aelodaeth llyfrgelloedd, er bod yr olaf wedi deillio o symud cofnodion cwsmeriaid i'r system newydd o reoli llyfrgelloedd Cymru gyfan a glanhau data.

Mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi gostwng ac mae ychydig yn is na ffigur 2017/18. Er hynny, mae'r gwariant ar ddeunyddiau fesul 1000 o'r boblogaeth yn y chwarter uchaf yng Nghymru. Parhaodd y gwasanaeth i fuddsoddi mewn adnoddau plant. Mae'r gwariant ar adnoddau Cymraeg wedi gostwng ychydig o dan 79% ers 2019/20 a gellir priodoli hyn i effaith y pandemig.

Cafodd lefelau staffio eu cynnal ers 2019/20, gyda chyfanswm nifer y staff cymwysedig yn parhau i fod yn uwch na'r lefel ganolrifol yng Nghymru.

Daeth Ceredigion hefyd yn 20<sup>fed</sup> gwasanaeth yng Nghymru i ymuno â'r System Reoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan (LMS) yn 2020/21. Mae gweithredu'r LMS yn gyflawniad sylweddol ar adeg o ostyngiad mewn lefelau staffio a dylai helpu'r gwasanaeth i ymateb yn effeithiol i anghenion cwsmeriaid wrth i brosiectau cenedlaethol gael eu datblygu.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Gwelodd Ceredigion gynnydd mewn lawrlwythiadau digidol o 42% o gymharu â 2019-20 ac mae yn y traean uchaf ar gyfer benthyciadau digidol fesul 1000 o'r boblogaeth.
- Mae'r gwasanaeth wedi darparu ystod eang o weithgareddau digidol drwy gydol 2020/21, gan gynnwys cyfweiliadau ag awduron, amseroedd stori a grwpiau darllen. Roedd hyn, yn rhannol, oherwydd prosiect Estyn Allan. Fe wnaeth staff llyfrgelloedd ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru elwa o'r rhaglen hyfforddiant ddigidol hon yn ystod 2020/21, gan arwain at gynnig digidol gwell gan Geredigion.
- Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cynnwys tair llyfrgell deithiol ac maent wedi parhau i ddarparu adnoddau i gwsmeriaid agored i niwed a'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ drwy gydol 2020/21 er bod y dull darparu wedi cael ei addasu oherwydd y pandemig.

- Drwy gymorth cronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 prynodd y llyfrgell argraffwyr di-wifr. Mae technolegau digyswllt wedi bod yn amhrisiadwy mewn llyfrgelloedd yn ystod y pandemig, gan gael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch cwsmeriaid.

### **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Cyflwynodd Ceredigion ddwy astudiaeth achos fer (enghraifft isod), gan gynnwys hyrwyddo gwasanaethau ar-lein i gwsmeriaid oedrannus a'r gwasanaeth danfon i'r cartref, a dangosai'r ddwy ohonynt fanteision y gwasanaethau llyfrgell o ran iechyd a lles.

Fel gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r gwasanaeth yn nodi mai'r flaenoriaeth yn y dyfodol agos fydd annog unigolion i ddychwelyd i'r llyfrgell, er bod effaith ariannol y pandemig ar y gwasanaeth yn aneglur. Bwriedir datblygu strategaeth, ond mae'r blaenoriaethau ar gyfer y strategaeth yn dal i gael eu datblygu.

### **Crynodeb**

Mae Ceredigion wedi gweithio'n galed i gynnal gwasanaeth llyfrgell yn 2020-21. Bydd rhoi blaenoriaeth i ddatblygu strategaeth llyfrgell ac ymgysylltu â chyn-gwsmeriaid a chwsmeriaid presennol neu rai nad ydynt yn gwsmeriaid, drwy ddulliau amrywiol, i gasglu gwybodaeth ar gyfer y strategaeth yn gymorth i'r gwasanaeth gynllunio ar gyfer dyfodol llwyddiannus.

### **Astudiaeth Achos**

Rhedodd Llyfrgelloedd Ceredigion system glicio a danfon drwy gydol 2020-21. Gallai unigolion, nad oeddent yn gallu ymweld â'r llyfrgell am amrywiol resymau gan gynnwys salwch ac ymrwymadau teuluol, archebu adnoddau a byddent yn cael eu danfon i'w cyfeiriad cartref. Roedd yr adborth ar y gwasanaeth yn gadarnhaol a chafodd effaith sylweddol ar sut roedd pobl yn gallu ymdopi â'r cyfnodau clo, ynysu a diogelu cwsmeriaid.

## CONWY

Darperir gwasanaethau llyfrgell yng Nghonwy gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 10 cangen (y mae 5 ohonynt yn cael eu cynnal gan y gymuned) ac 1 llyfrgell deithiol, gydag 89% o'r trigolion yn byw o fewn 3 milltir i lyfrgell.

### Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell

Rhoddodd Conwy dystiolaeth fanwl i ddangos ei bod yn cwrdd â'r holl hawliau craidd.

Gwelodd Conwy gynnydd sylweddol yn yr ymweliadau â'r wefan a chynnydd o 184% yn y defnydd o e-adnoddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n ei gosod yn agos i'r brig yng Nghymru ar gyfer lawrlwythiadau digidol fesul 1000 o'r boblogaeth. Mae Conwy yn un o'r pymtheg awdurdod a welodd aelodaeth llyfrgell yn gostwng yn 2020/21 o gymharu â 2019/20 oherwydd y pandemig. Gwelodd y gwasanaeth ostyngiad bychan ers 2017/18.

Mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi gweld gostyngiad o 24% ers 2017/18 er bod y gwasanaeth yn parhau yn y chwarter uchaf am wariant ar ddeunyddiau fesul 1000 o'r boblogaeth. Fodd bynnag, nododd y gwasanaeth fod rhan sylweddol o'r gyllideb yn seiliedig ar yr achos busnes cyfalaf a gyflwynir bob blwyddyn. Nid yw'r cyllid hwn wedi ei warantu ac mae'r gwasanaeth yn mynd drwy broses geisiadau yn flynyddol i gael yr arian hwn. Mae'r rhan fwyaf o ddangosyddion defnydd megis benthyciadau oedolion a phlant, benthyciadau digidol, lefelau benthycwyr gweithredol, yn gosod Conwy o gwmpas y canolrif yng Nghymru. Mae cyfanswm y gwariant ar adnoddau Cymraeg yn parhau yn uwch na'r lefel ganolrifol yng Nghymru ac mae'r benthyciadau o'r stoc Gymraeg fesul 1000 o siaradwyr Cymraeg yn gosod Conwy yn y drydedd ran uchaf o wasanaethau llyfrgell ledled Cymru.

Mae nifer y staff y nodwyd eu bod yn meddu ar gymwysterau cydnabyddedig wedi aros yr un fath ac ychydig yn uwch na'r lefel ganolrifol yng Nghymru. Bu gostyngiad yn nghyfanswm y staff oherwydd toriadau yn y gyllideb.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Galluogodd cais llwyddiannus am Gyllid Datblygiad Plant ym mis Rhagfyr 2020 y gwasanaeth i weithio'n agos gyda Chanolfannau Teulu Lleol i ddarparu sesiynau amser stori dwyieithog rhithwir i blant dan oed ysgol oedd yn profi oedi datblygiadol oherwydd cyfyngiadau Covid.
- Mae'r gwasanaeth hefyd yn parhau i gefnogi grwpiau darllen Cymraeg. Parhaodd grŵp sgwrsio'r dysgwyr Cymraeg, a gychwynnwyd yn Llyfrgell Conwy, i gyfarfod yn ddigidol drwy gydol y pandemig.
- Ehangwyd y cynnig rhithwir i gynnwys sesiynau crefftiau a choginio. Datblygwyd y cynnig ffisegol hefyd gyda staff y llyfrgell yn llunio detholiad unigol wedi'i deilwra o lyfrau i gwsmeriaid eu danfon neu eu casglu. Croesawodd aelodau'r llyfrgell hyn.



- Drwy gymorth gan gronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 bu'n bosibl creu porth pwrpasol ar gyfer llyfrgelloedd ac ar gyfer Diwylliant. Mae hyn wedi gwella'r gwaith o hyrwyddo gwasanaethau a bydd yn parhau i wella ymgysylltiad â chymunedau lleol.
- Gweithredwyd gwasanaeth clicio a chasglu, sydd wedi cael ei barhau ac sy'n darparu llawer o fanteision i gwsmeriaid.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Darparwyd nifer o astudiaethau achos (enghreifftiau isod) yn dangos effaith ystod o wasanaethau ar unigolion gan gynnwys iechyd a lles, gwasanaethau digidol, teuluoedd, ac effaith ar staff.

Cwblhawyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Llyfrgell a Gwybodaeth ddrafft 2021-26. Prif ffocws y strategaeth fydd datblygu Llyfrgelloedd fel Hybiau Cymunedol. Bydd ffocws ar godi ymwybyddiaeth o'r llyfrgelloedd fel man lle gall trigolion gael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau'r cyngor. Bydd ffocws parhaus hefyd ar godi proffil y cynllun Llyfrau Darllen yn Dda ar Bresgripsiwn ar gyfer iechyd meddwl. Mae cyllid a dderbyniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi helpu i gefnogi partneriaeth Llyfrgelloedd Conwy a Sir Ddinbych i ymgysylltu â Llyw-wyr Cymunedol i godi proffil Darllen yn Dda ac i ragnodi'r llyfrau'n uniongyrchol i gwsmeriaid eu gwasanaeth. Bydd iechyd a lles yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

## **Crynodeb**

Mae gwasanaeth llyfrgell Conwy yn parhau i ddarparu gwasanaeth cryf gyda blaenoriaethau ar iechyd a lles, plant, a darpariaeth ddwyieithog. Fodd bynnag, mae lefelau staffio yn hanfodol i gynnal a datblygu'r blaenoriaethau hyn. Mae staffio wedi gostwng o bron i chwarter (22%) ers cwblhau pumed fframwaith SLICC (2017) a gallai effeithio ar allu'r gwasanaeth i gyflawni yn y dyfodol.

## **Astudiaeth achos 1**

Yn ystod y cyfnod clo cafodd staff y llyfrgell eu hadleoli i ateb galwadau, brocera (oedd yn trefnu i bresgripsiynau a nwyddau gael eu casglu) a thimau cefnogi y rhai oedd yn gwarchod, gan roi cymorth lleol i bawb oedd ei angen. Darparodd staff y llyfrgell gymorth ymarferol ac emosiynol o ddydd i ddydd i bobl oedd yn ofnus, yn ddryslyd ac angen cymorth.

Roedd fferyllwyr ac archfarchnadoedd yn cael trafferth i ddechrau i reoli'r galw am ddanfoniadau cartref, a chafodd hyn effaith enfawr ar y rhai oedd fwyaf mewn perygl. Gwnaeth staff y llyfrgell yn siŵr nad oedd yr aelodau mwyaf bregus o'r gymdeithas yn mynd heb fwyd a meddyginiaeth. Dywedodd un aelod o'r staff:

*"I had many pleasant chats about how we were all coping during those strange times. One thing that stood out for me was the true community spirit. People who initially received parcels, but then managed to get food slots, cancelling their parcels so that they could be offered to others in more need of them being only one example."*

*“The collaborative work we did with existing food banks, and those set up by local community groups was heartening. Their support and immediate response to requests for help were invaluable to us in resolving difficult situations”.*

## **Astudiaeth Achos 2**

Mae gwasanaeth Llywiwr Cymunedol Conwy yn darparu cefnogaeth i bobl yn y gymuned i wella eu lles meddyliol a chorfforol. Arweiniodd partneriaeth gyda'r llyfrgell at atgyfeiriad ar gyfer unigolyn a oedd yn brwydro yn erbyn unigrwydd a llai o symudedd. Cysylltodd tîm y llyfrgell i ddarganfod mwy am ei hobiau a'i ddiddordebau. Arweiniodd hyn at ddanfôn llyfrau i gartref y cwsmer o'r cynllun “Llyfrau ar bresgripsiwn”<sup>5</sup>. Mae darparu gwasanaethau aml-asiantaeth i'r cwsmer hwn wedi rhoi ymdeimlad newydd o bwrpas iddo mewn bywyd ac wedi gwella ei iechyd meddwl a'i les yr un pryd.

---

<sup>5</sup> [Reading Well | Reading Agency](#)

## SIR DDINBYCH

Darperir gwasanaethau llyfrgell yn Sir Ddinbych gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 8 cangen ac 1 cerbyd danfon i'r cartref, gydag 88% o drigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell.

### Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell

Rhoddodd Sir Ddinbych dystiolaeth fanwl i ddangos ei bod yn cwrdd â'r holl hawliau craidd.

Mae Sir Ddinbych yn nodi cynnydd sylweddol iawn o 166% mewn benthyciadau digidol. Cynyddodd y gwasanaeth y dewis o e-Lyfrau digidol y gellir eu lawrlwytho ac e-Lyfrau Llafar gyda buddsoddiad a darpariaeth ychwanegol e.e. *PressReader* (Darllenydd y Wasg) ar gyfer papurau newydd ar-lein. Arweiniodd hyfforddiant ychwanegol a ffocws ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol hefyd at fwy o ymgysylltu â chymunedau ar draws Sir Ddinbych.

Yn yr un ffordd â gwasanaethau llyfrgell eraill, gwelodd Sir Ddinbych ostyngiad anochel mewn benthycwyr gweithredol a chyfansymiau aelodaeth llyfrgell, er bod yr olaf yn deillio o lanhau data cofnodion defnyddwyr yn unol â gofyniad GDPR. Mae Sir Ddinbych yn un o bymtheg awdurdod sydd wedi gweld gostyngiad mewn aelodaeth yn 2020/21 oherwydd y pandemig.

Mae'r gyllideb ddeunyddiau yn parhau i fod ychydig yn uwch na ffigur 2017/18. Gan Sir Ddinbych mae'r lefel uchaf o fenthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg, ac maent wedi parhau eu buddsoddiad uchel mewn deunyddiau Cymraeg. Cynhaliwyd dau grŵp darllen Cymraeg yn ddigidol yn ystod 2020/21.

Mae nifer y staff y nodwyd bod ganddynt gymwysterau cydnabyddedig wedi aros yr un fath, ond bu gostyngiad bach yng nghyfanswm y staff. Nid yw swyddi gwag wedi cael eu llenwi oherwydd toriadau yn y gyllideb dros nifer o flynyddoedd. Dim ond 50% o'r lefelau staffio gwirioneddol sy'n cael eu hadrodd gan fod staff eraill yn treulio 50% o'u hamser ar rolau gwasanaeth cwsmeriaid.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Parhaodd darpariaeth Dechrau Da ar-lein drwy gydol 2020/21, ochr yn ochr â dau grŵp darllen Cymraeg a ddarparwyd.
- Cyflwynwyd gwasanaeth archebu a chasglu er budd cwsmeriaid.
- Ehangodd y Gwasanaeth Llyfrgell yn y Cartref ei wasanaeth danfon a chynorthwyo 79 o gwsmeriaid newydd.
- Staff y llyfrgell oedd y craidd ar gyfer y gwasanaeth Galwadau Rhagweithiol ar gyfer pobl oedd yn gwarchod yn ystod y cyfnod clo ac roeddent yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid yn y cyngor a'r trydydd sector i ddarparu gwybodaeth a chyngor.

- Lansiodd casgliad bagiau cof ar gyfer pobl oedd yn byw gyda dementia yn ystod y flwyddyn.
- Galluogodd cefnogaeth o gronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 y gwasanaeth i greu gofodau digidol unigol newydd. Mae'r ystafelloedd hyn yn cynnig manau preifat a gellir eu harchebu ac maent yn galluogi unigolion i gynnal apwyntiadau preifat ar-lein. Mae'r ystafelloedd hyn yn cynnig gwasanaethau i unigolion a allai gael eu gwahardd fel arall.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Darparodd Sir Ddinbych amrywiaeth o astudiaethau achos (enghreifftiau isod) oedd yn dangos ei heffaith ar gwsmeriaid a chymunedau, yn enwedig drwy ei bagiau cof newydd ar gyfer dementia, cyfleoedd digidol i staff a'r cyhoedd, ac i blant a theuluoedd drwy'r amser rhigymanu dwyieithog poblogaidd ar-lein gydag arwyddo Makaton.

“Llyfrgelloedd yw'r calonnau sy'n curo yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu – lleoedd niwtral yr ymddiriedir ynddynt lle mae croeso i bawb waeth beth fo'u hoedran, cefndir neu amgylchiadau ariannol”. Dyma yw gweledigaeth Sir Ddinbych yn parhau i fod. Yn y dyfodol agos, bydd y ffocws yn parhau ar ddatblygu'r cynnig iechyd a lles ymhellach, darparu gwasanaethau digidol, adolygu'r gwasanaeth danfon i'r cartref ac addasu cyfleusterau'r llyfrgell er mwyn galluogi unigolion i ymgysylltu â'i gilydd yn ddiogel. Fel y nodwyd gan awdurdodau lleol eraill, bydd pwysau cyllidebol parhaus yn effeithio ar ddatblygiadau yn y dyfodol.

## **Crynodeb**

Arweiniodd y gwasanaeth ar raglen sgiliau digidol Cymru gyfan ar gyfer staff, Estyn Allan. Roedd hwn yn gyflawniad nodedig, gan ei fod wedi gwneud mwy o gydweithio yn bosibl ar draws llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Ddinbych wedi cynnal ei flaenoriaethau ar iechyd a lles, plant a gweithgareddau dwyieithog, ac ymgysylltu digidol. Mae gan y gwasanaeth sylfaen gref ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

## **Astudiaeth Achos 1**

Mae'r twf yn y defnydd o adnoddau digidol y llyfrgell (e-Lyfrau, e-Lyfrau Llafar, a chylchgronau a phapurau newydd digidol) wedi'i weld ers nifer o flynyddoedd – ond fe gyflymodd ers y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020 wrth i bobl edrych am fynediad ar ddeunydd darllen, pan fu'n rhaid i adeiladau llyfrgelloedd gau.

Cynyddodd cyfanswm lawrlwythiadau deunydd digidol o 166% yn 20-21, gyda benthyciadau Borrowbox (e-Lyfrau ac e-Lyfrau Llafar yn Gymraeg a Saesneg) yn cynyddu o 94%, ac e-gylchgronau o 55%. Ategwyd hyn gan fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn cynnwys ychwanegol yng nghynnig Borrowbox Llyfrgelloedd Cymru, ac fe wnaethom hefyd brynu rhywfaint o stoc ychwanegol i ateb y galw am deitlau y mae galw mawr amdanynt. Fe wnaethom alluogi pobl i ymuno ar-lein a chael mynediad ar yr adnoddau heb orfod dod i mewn i'r llyfrgell.

Ar gyfer un cwsmer sy'n byw gydag ME, mae defnyddio Borrowbox wedi cael effaith gadarnhaol ar ei bywyd gan fod ganddi fynediad at e-Lyfrau Llafar y gellir eu lawrlwytho, a gall hefyd gefnogi datblygiad darllen ei mab:

*“This is the most fantastic App! I have M.E. No longer able to read but I can listen to these books. So many choices of books too! Really simple to use, syncs well across tablet and phone and it is free with library. There's also super easy option to reserve a book and it will email when u can add it! I have listened to the book my son was reading at school so we could talk about it. Thank you for making a bookworm happy again!!”*

Gyda llyfrgelloedd yn methu â chynnig mynediad at bapurau newydd argraffedig oherwydd cau a phryderon ynghylch diogelwch ar ôl eu hailagor, prynwyd PressReader sy'n darparu mynediad at dros 7000 o bapurau newydd o bob rhan o'r byd.

Mae'r fideo canlynol yn dangos effaith yr adnodd hwn ar fywyd un cwsmer:

<https://www.youtube.com/watch?v=mKH6YhTD0Ls>

*“A great innovation for me. I can just get up in the morning, make a coffee, turn on and read whatever newspaper I like.”*

## **Astudiaeth Achos 2**

Symudodd Dechrau Da Sir Ddinbych ei weithgaredd amser rhigymau rheolaidd ar-lein. Roedd tîm Dechrau Da, gan weithio o gartref, yn cynhyrchu Amser Rhigymau dwyieithog byw ar Facebook bob wythnos (664 yn gwylio ar gyfartaledd), ac yn recordio a chyhoeddi fideos rhigwm a stori ar-lein (1079 yn gwylio ar gyfartaledd).

Roedd y sesiynau byw yn galluogi teuluoedd i barhau i ymgysylltu â'r tîm a'r gwasanaeth llyfrgell – gan anfon ceisiadau am gyfarchion pen-blwydd a hoff rigymau bob wythnos. Roedd y sesiynau'n ddwyieithog ac yn gwneud defnydd o arwyddion Makaton fel y gallai'r plant a'r teuluoedd ddatblygu eu Cymraeg a'u sgiliau arwyddo ar yr un pryd. Daeth y sesiynau ag ymdeimlad o normalrwydd a threfn i lawer o deuluoedd.

Bu'n rhaid i dîm y staff ddysgu sgiliau newydd yn gyflym iawn a dangoswyd hyblygrwydd, creadigrwydd ac ymrwymiad mawr wrth newid eu darpariaeth i rithwir ar adeg o straen personol mawr.

Cydnabuwyd gwaith y tîm yn 'Gwneud Gwahaniaeth: Llyfrgelloedd, y Cyfnod Clo ac Edrych Ymlaen',<sup>6</sup> adroddiad gan Carnegie Trust UK ar wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus y DU oedd yn edrych ar eu rôl yn cefnogi unigolion a chymunedau yn ystod y cyfnod clo a'r rhwystrau a wynebwyd ganddynt yn ystod y cyfnod hwn.

---

<sup>6</sup> <https://www.carnegieuktrust.org.uk/publications/making-a-difference-libraries-lockdown-and-looking-ahead/>

## **SIR Y FFLINT**

Darperir gwasanaethau llyfrgell yn Sir y Fflint gan Aura Leisure and Libraries Ltd. ar ran yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 7 cangen, 1 llyfrgell deithiol ac 1 cerbyd danfon i'r cartref, gydag 83% o'r trigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell.

### **Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell**

Adroddodd gwasanaeth llyfrgell Aura ei fod wedi cwrdd â'r holl hawliau craidd.

Gwelodd gwasanaeth llyfrgell Aura, yn unol â gweddill Cymru, gynnydd yn ei lawrlwythiadau digidol o 83%.

Fel gyda gwasanaethau llyfrgell eraill, gwelodd Sir y Fflint ostyngiad anochel mewn benthydwyr gweithredol a chyfansymiau aelodaeth llyfrgelloedd. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gweld gostyngiad ers pumed fframwaith SLICC. Gellid adolygu hyn gyda chynllun i ymgysylltu â chyn-gwsmeriaid a darpar gwsmeriaid newydd. Mae Sir y Fflint yn un o bymtheg awdurdod sydd wedi gweld gostyngiad mewn aelodaeth yn 2020/21 oherwydd y pandemig.

Mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi gweld gostyngiad o 31% ers 2017/18. Mae'r gwariant ar adnoddau Cymraeg yn parhau'n gryf. Efallai bod hwn yn faes y bydd ar y gwasanaeth eisiau ei adolygu ar y cyd â gwasanaethau cyfagos, i gael y gorau allan o'u buddsoddiad.

Mae nifer y staff y nodwyd eu bod yn meddu ar gymwysterau cydnabyddedig wedi aros yr un fath tra bu gostyngiad bychan yng nghyfanswm y staff. Mae cyfanswm y lefelau staffio a staffio cymwysedig fesul 10,000 o'r boblogaeth yn isel iawn, ac yn y chwarter isaf ar gyfer Cymru.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Mae Sir y Fflint wedi cynnig dosbarthiadau sgwrsio Cymraeg ar-lein yn ogystal â grŵp llyfrau Cymraeg drwy gydol 2020/21.
- Cynigiodd Sir y Fflint amrywiaeth o gynnwys wedi'i recordio ymlaen llaw a chynnwys byw i gwsmeriaid y llyfrgell. Roedd hyn yn cynnwys amseroedd stori wythnosol ac amseroedd rhigymau wedi eu recordio ymlaen llaw.
- Defnyddiodd y gwasanaeth y cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i hyrwyddo adnoddau; roedd hyn yn cynnwys awdur y mis a theitlau a argymhellid gan staff.
- Gwasanaeth allweddol a gynigiwyd i aelodau drwy gydol y cyfnod hwn oedd y gwasanaeth danfon i'r cartref i gwsmeriaid bregus. Er mwyn cefnogi'r unigolion hyn ymhellach lansiodd Sir y Fflint gynllun 'Cyswllt Llyfrgell Aura'. Roedd unigolion yn gallu cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn ac yna roedd aelod o dîm y llyfrgell yn cysylltu â hwy yn rheolaidd.
- Bu cymorth gan gronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 yn gyfrwng i wneud creu gwefan newydd yn bosibl. Mae hyn wedi bod yn gymorth

i wytnwch y gwasanaeth, wrth i'r presenoldeb ar-lein gael ei drawsnewid. Mae gan y platform newydd y potensial i ddenu cynulleidfaoedd newydd ac amlygu adnoddau digidol.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Cyflwynodd gwasanaeth llyfrgell Aura nifer o astudiaethau achos (enghraifft isod) i ddangos yr effaith a gafodd y llyfrgell, yn enwedig ar blant, pobl hŷn, ac ymgysylltiad uniongyrchol drwy ei alwadau cymunedol a'r gwasanaeth llyfrgell cartref. Bu'r rhain yn uniongyrchol fuddiol i iechyd a lles pobl, eu teimladau o unigrwydd, a'u sgiliau digidol.

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod i'r dyfodol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn i ddod, nodir mai'r nod allweddol ar gyfer y dyfodol fydd ailgysylltu â chwsmeriaid a'u hannog i ddychwelyd yn ffisegol i adeiladau'r llyfrgell. O ganlyniad i effaith y pandemig, mae angen adolygu cynlluniau er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau presennol yn cyd-fynd ag anghenion cwsmeriaid. Mae angen sicrhau bod newidiadau yn y dyfodol yn denu benthycwyr newydd a chyn-fenthycwyr. Bydd iechyd a lles, cynhwysiant digidol a llythrennedd yn parhau i fod yn flaenoriaethau.

## **Crynodeb**

Mae gwasanaeth llyfrgell Aura wedi rhoi cynlluniau newydd ar waith fel yr hwb llesiant yn llyfrgell y Fflint a'r benthyciadau offer digidol. Efallai bod y lefelau staffio isel yn rhwystro'r gwasanaeth rhag gallu gwneud y gorau o'i botensial. Fodd bynnag, dangosodd staff dosturi ac empathi drwy ddarparu cyswllt llyfrgell Aura. Bu'r gwasanaeth hwn yn gymorth i leihau'r ymdeimlad o unigrwydd ac ynysigrwydd a brofodd rhai cwsmeriaid yn 2020/21.

## **Astudiaeth Achos**

Mae'r gwasanaeth llyfrgell cartref yn gweithredu ar draws Sir y Fflint ac yn dosbarthu bagiau o lyfrau i gwsmeriaid, sydd wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell cartref, bob 5 wythnos. Bydd cynorthwywyr llyfrgell yn coladu bag o lyfrau yn y llyfrgell ar gyfer pob cwsmer i gwrdd â'i ofynion. Mae'r adnoddau'n cael eu danfon yn uniongyrchol i'r cwsmer.

Parhaodd y gwasanaeth llyfrgell cartref drwy gydol y pandemig gan ddenu cwsmeriaid ychwanegol, gan gynnwys y rhai oedd yn ynysu ac yn methu ymweld â'u llyfrgell leol neu deithiol. Nododd cwsmer mewn profedigaeth y canlynol:

*"During the pandemic I joined the Home Library service provided by Aura, I look forward to my bag of books and always receive a variety of choice. I enjoy receiving books from different authors, other than my favourites and broadening my choice of reading. If I request a book, it is in my bag for the next visit and my reading helps take me to another world, at a time when I need to find a happy place."*

## **GWYNEDD**

Darperir gwasanaethau llyfrgell yng Ngwynedd gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 13 cangen a 3 llyfrgell deithiol, gydag 80% o'r trigolion yn byw o fewn 3 milltir i llyfrgell.

### **Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell**

Darparodd Gwynedd dystiolaeth fanwl i ddangos ei bod yn cwrdd â'r holl hawliau craidd.

Mae'n galonogol gweld bod y gyllideb ddeunyddiau wedi cynyddu o 19% ers 2017/18, gyda chynnydd pellach yn 2019/20, sydd wedi cael ei fuddsoddi mewn adnoddau ar-lein. Mae Gwynedd yn un o bymtheg awdurdod a welodd ostyngiad yn aelodaeth llyfrgelloedd yn 2020/21 o gymharu â 2019/20 oherwydd y pandemig.

Gwynedd yw'r awdurdod blaenllaw ar gyfer gwariant ar ddeunyddiau fesul 1000 o'r boblogaeth. Mae ei buddsoddiad a chefnogaeth i ddeunyddiau Cymraeg wedi parhau ac mae'r benthyciadau Cymraeg fesul 1000 o siaradwyr Cymraeg y pedwerydd uchaf yng Nghymru. Mae Gwynedd hefyd yn arwain ar ddarpariaeth llyfrau Llafar ac e-Lyfrau Cymraeg ar gyfer holl lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru, ac e-Lyfrau Cymraeg ar gyfer cynllun Darllen yn Dda i blant, gan gydweithio â phartneriaid yn cynnwys Ffolio (y llwyfan newydd ar gyfer e-Lyfrau Cymraeg, dan arweiniad Cyngor Llyfrau Cymru).

Oherwydd swyddi gweigion mae nifer y staff y nodwyd bod ganddynt gymwysterau cydnabyddedig wedi gostwng ychydig er ei fod ar y lefel ganolrifol yng Nghymru. Mae cyfanswm y staff yn parhau'n sefydlog. Cynhaliwyd adolygiad o'r strwythur staffio, gan greu swydd ddigidol a dysgu newydd i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n newid.

- Arweiniodd Gwynedd ar bartneriaeth gyda Chyngor Llyfrau Cymru yn 2020/21 i ddarparu casgliad Goreuon o Gymru mewn llyfrgelloedd yn 2020/21 a arweiniodd at gynnydd yn y llyfrau oedd ar gael i ddysgwyr Cymraeg.
- Arweiniodd partneriaeth gyda gwasanaeth blynyddoedd cynnar Gwynedd at Wunedd yn rhannu pecynnau a gweithgareddau gyda rhieni mewn detholiad yn yr ysgolion i wella lefelau llythrennedd mewn cymunedau lleol.
- Cynyddodd lawrlwythiadau digidol o 72% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Ehangodd Gwynedd yr ystod o adnoddau ar-lein sydd ar gael i gwsmeriaid, gan gynnwys *PressReader* (Darllenydd y Wasg) ar gyfer papurau newydd a *Find My Past* yn eu cynnig.
- Cyflwynodd y gwasanaeth nifer o sesiynau amser stori rhithwir llwyddiannus i blant.
- Llwyddodd y gwasanaeth i wella mynediad at ystod o wybodaeth a gwasanaethau drwy ymestyn ciosgau gwybodaeth i dair llyfrgell ychwanegol.



## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Darparodd Gwynedd amrywiaeth o astudiaethau achos (enghraifft isod) yn dangos yr effaith y mae'r gwasanaeth wedi ei chael ar bobl a chymunedau yn ystod 2020-21, gan gynnwys polisi i ddileu dirwyon yn barhaol; ymgysylltu digidol; a mynd i'r afael â thlodi mislif drwy ddewisiadau ecogyfeillgar a ddosberthir drwy ei wasanaeth archebu a danfon.

Mae strategaeth newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, a bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r gwasanaeth llyfrgell deithiol yn dilyn llwyddiant ei wasanaeth danfon i'r cartref wedi'i deilwra yn 2020-21. Amlygodd y gwasanaeth mai un o'r heriau allweddol fydd denu pobl yn ôl i'r llyfrgell yn dilyn y cyfyngiadau ar wasanaethau llyfrgell craidd drwy gydol 2020/21.

## **Crynodeb**

Mae gan Wunedd bartneriaethau cryf mewn meysydd blaenoriaeth megis dysgu, iechyd a lles, a phlant a theluoedd. Mae wedi cynnal ei pherfformiad cryf ar gyfer darpariaeth Gymraeg, ac mae'n ymddangos bod y llyfrgell mewn sefyllfa dda i adeiladu ar ei llwyddiannau yn ystod y pandemig a denu mwy o gwsmeriaid newydd a chyn-gwsmeriaid.

## **Astudiaeth Achos**

Am y chweched flwyddyn yn olynol comisiynwyd Llyfrgelloedd Gwynedd gan Gymunedau yn Gyntaf i redeg y Cynllun Darllen Teuluol. Cynigiwyd darpariaeth i 7 ysgol gyda lle i hyd at 6 o deuluoedd gyda phlant yn y dosbarth Meithrin, dosbarth Derbyn neu Flwyddyn 1 i gymryd rhan o bob ysgol. Nod y cynllun yw hybu darllen a gwella hyder rhieni.

Roedd angen gweithredu'r cynllun mewn ffordd ychydig yn wahanol yn 20/21 oherwydd cyfyngiadau Covid-19 a'r her oedd cynllunio'r gweithgareddau mewn ffordd wahanol. Canolbwyntiwyd ar annog rhieni i rannu llyfrau gyda'u plant, a chael hwyl wrth drafod storïau gyda'i gilydd.

Darparwyd pecyn danfon i'r cartref ar gyfer pob teulu gan Lyfrgelloedd Gwynedd oedd yn cynnwys tri llyfr stori a llun i'w liwio, gwaith crefft wedi'i ysbrydoli gan un o'r llyfrau, ynghyd â chyfarwyddiadau ac adnoddau. Roedd yna ddolen gyswllt i YouTube hefyd er mwyn i'r teulu allu gwyllo fideo o actor yn darllen un o'r storïau. Yr ysgolion oedd yn gyfrifol am adnabod a gwahodd teuluoedd.

Roedd yr holl deuluoedd wrth eu bodd yn cael adnoddau llyfrau am ddim, ac roedd tystiolaeth i awgrymu bod y llyfrau hyn yn cael cryn ddefnydd yn y cartref. Defnyddiwyd gweddill yr arian i brynu adnoddau crefft amrywiol er mwyn i'r teuluoedd allu cymryd rhan yn y gweithgaredd crefftau drwy ddilyn y cyfarwyddiadau yn y pecyn. Dosbarthwyd 132 o becynnau gweithgaredd i deuluoedd dros dymor yr Hydref a'r Gwanwyn a chafodd 57 o blant fudd o'r cynllun.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

*"Cynllun gwerthfawr dros ben sydd wedi parhau drwy gyfnod dyrys ac anodd iawn. Adborth wych a chefnogol iawn gan y rhieni a phawb yn*

*ddiolchgar am yr adnoddau ffantastig. Wir yn gobeithio bydd y cynllun yn parhau ac y bydd y sesiynau teulu yn cychwyn yn ôl, pan fydd hi'n saff. Diolch anferth”*

*“Just nodyn i ddiolch yn fawr am y pecyn gyrhaeddodd fel rhan o'r cynllun darllen. Mae'n wych, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys gweithgaredd crefft hefyd. Newch chi plis basio fy niolch ymlaen i'r rheini sy'n gyfrifol? Wir yn gwerthfawrogi.”*

## YNYS MÔN

Darperir gwasanaethau llyfrgell ar Ynys Môn gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 5 cangen, 1 llyfrgell deithiol, 1 cerbyd danfon i'r cartref, a 2 lyfrgell yn cael eu cynnal gan eu cymunedau, gydag 89% o'r trigolion yn byw o fewn 3 milltir i lyfrgell.

### Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell

Mae'r gwasanaeth yn adrodd ei fod wedi cwrdd â'r holl hawliau craidd yn llawn, 1 yn rhannol ac na chyflawnodd 1; strategaeth llyfrgell ar gael (yn rhannol) ac ymgynghori â defnyddwyr (ni chyflawnwyd).

Gwelodd Ynys Môn gynnydd o 142% ar gyfer ei lawrlwythiadau digidol. Mae bellach yn y chwarter uchaf ar gyfer lawrlwythiadau digidol yng Nghymru, drwy fwy o fuddsoddiad a hyrwyddo. Bu gostyngiad bychan yn aelodaeth llyfrgelloedd ers 2017/18. Mae Ynys Môn yn un o bymtheg awdurdod a welodd ostyngiad yn aelodaeth llyfrgelloedd yn 2020/21 o gymharu â 2019/20 oherwydd y pandemig. Mae'r gwasanaeth yn nodi y gallai hyn fod oherwydd diffyg cyfleoedd i adnewyddu neu ymuno'n bersonol am fod canghennau ar gau.

Mae'r gwasanaeth wedi gweld gostyngiad o 18.1% yn ei gyllideb ddeunyddiau ers 2017/18, ac mae bellach ychydig uwchlaw'r canolrif ar gyfer Cymru. Mae Ynys Môn yn nodi bod gwasanaethau i blant wedi cael blaenoriaeth yn ystod y pandemig a bod ei gwariant ar blant wedi cael ei gynnal.

Mae gwariant ar adnoddau Cymraeg wedi cynyddu ychydig, er bod lefel y benthyciadau fesul 1000 o siaradwyr Cymraeg yn y chwarter isaf. Efallai y bydd y gwasanaeth yn dymuno ymgysylltu ag awdurdodau cyfagos i edrych am ffyrdd o wneud y gorau o'i fuddsoddiad mewn deunyddiau Cymraeg.

Bu gostyngiad bychan yn y lefelau staffio ers 2019/20 oherwydd swyddi gwag. Mae cyfanswm y staff y nodwyd bod ganddynt gymwysterau cydnabyddedig wedi aros yr un fath.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Hyrwyddwyd pecynnau galw a chasglu i'r plant.
- Darparodd gwasanaeth llyfrgell yr ysgolion focsys darllen er pleser i ysgolion cynradd.
- Cyflwynwyd clwb Lego poblogaidd ar-lein.
- Mae'r gwasanaeth yn cefnogi grwpiau darllen Cymraeg.
- Galluogodd cymorth gan gronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 y gwasanaeth i brynu iPads a hyblets, sydd wedi ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth adnoddau digidol bresennol ac sydd wedi hwyluso mynediad gartref at adnoddau ar-lein, megis papurau newydd a chylchgronau.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Cyflwynodd Ynys Môn nifer o astudiaethau achos (enghraifft isod) yn dangos effaith gwasanaethau penodol ar unigolion a chymunedau, megis y gwasanaeth galw a chasglu newydd; y blychau llyfrau darllen er pleser i ysgolion; a chlybiau ar-lein i blant a theuluoedd.

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod i'r dyfodol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn i ddod, mae Ynys Môn yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r nodau a amlinellir yn Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2022. Mae effaith y pandemig yn golygu y bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu ymhellach yr arlwy iechyd a lles yn Llyfrgelloedd Ynys Môn ochr yn ochr â gwella arlwy ddigidol y gwasanaeth, parhau i ddatblygu staff yn broffesiynol, a sicrhau bod adeiladau mor ddiogel â phosibl. Bydd hefyd yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth lenwi swyddi gwag er mwyn sicrhau gwytnwch.

## **Crynodeb**

Mae Ynys Môn wedi gweithio'n galed i wella ei chynnig digidol ac mae'n cydnabod y bydd llenwi'r swyddi gwag yn galluogi'r gwasanaeth i gyflawni mwy wrth iddo wella o'r pandemig. Mae'n bosibl y bydd y gwasanaeth yn gallu manteisio ar ddatblygiadau diweddar megis y llyfrgell newydd yng Nghaergybi a chynnal buddsoddiad mewn adnoddau electronig, ochr yn ochr â datblygu strategaethau cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r gwasanaeth hwn.

## **Astudiaeth Achos**

Cyn Covid, cynhaliodd y Gwasanaeth Llyfrgell Glybiau Lego poblogaidd iawn mewn 4 llyfrgell. Roedd hwn yn un o'r gweithgareddau y llwyddodd y gwasanaeth i'w drosglwyddo ar-lein yn llwyddiannus. Sefydlwyd themâu wythnosol, a gosododd plant (ac ambell oedolyn) eu creadigaethau ar dudalen Facebook y llyfrgell. Llwyddodd y gwasanaeth i ddathlu creadigrwydd pob plentyn drwy greu oriel o thema'r wythnos honno. Darparodd y gweithgaredd hwn lawer o fwynhad ar adeg anodd. Roedd yr adborth yn cynnwys

*“Lego club was an absolute lifesaver for us - our child looked forward to coming to the library for the Lego club, but the online club came a close second. He would spend hours building and exploring the theme. The fact that the library was setting the theme caught his imagination in a way that me giving him ideas could not. The focus took away from Covid and all the restrictions, and he loved seeing his efforts on Facebook.”*

## MERTHYR TUDFUL

Darperir gwasanaethau llyfrgell ym Merthyr Tudful gan Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful ar ran yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 5 cangen ac 1 cerbyd danfon i'r cartref, gydag 88% o'r trigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell.

### Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell

Mae'r gwasanaeth yn adrodd ei fod wedi cwrdd â'r holl hawliau craidd yn llawn.

Gwelodd Merthyr Tudful gynnydd dymunol o 68.5% mewn benthyciadau digidol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu cynnydd yn aelodaeth llyfrgelloedd ers 2019/20 a chynnydd o 7.5% ers 2017/18. Mae Merthyr yn un o ddim ond 7 awdurdod sydd wedi gweld cynnydd mewn aelodaeth yn ystod 2020/21.

Mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi gostwng yn sylweddol ers 2017/18 ac mae bellach 47% yn is na lefelau 2017/18. Mae Merthyr Tudful yn priodoli'r gostyngiad yn 2020-21 yng nghyfanswm y gyllideb a'r gwariant ar y Gymraeg ac adnoddau plant i'r pandemig a'r cyfyngiadau. Er hynny, mae'r gwasanaeth wedi parhau i gwrdd â'r safon a osodwyd ar gyfer SLICC Ch1 9.<sup>7</sup> Mae'r safon hon yn ei gwneud yn ofynnol i lyfrgelloedd gyflawni naill ai lleiafswm o 243 eitem fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl neu isafswm gwariant o £2,180 fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl yn flynyddol. Fe wnaeth Merthyr gaffael 249 o eitemau fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl yn 2020/21. Dylid nodi hefyd bod rhoi staff ar seibiant ym Merthyr Tudful yn ffactor a gyfrannodd at hynny gan nad oedd staff ar gael i brynu stoc. Nid oedd y gwasanaethau yr effeithiwyd arnynt gan ffyrlo ac adleoli yn gallu gwario'r gyllideb a ddyrannwyd mewn rhai achosion.

Mae lefelau staffio wedi aros yr un fath ers 2017/18, gyda nifer y staff a chyfanswm y staff proffesiynol yn is na'r lefel ganolrifol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn nodi'r ganmoliaeth gadarnhaol barhaus a'r adborth a dderbyniwyd gan gwsmeriaid ynghylch y staff.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Drwy gydol 2020/21, llwyddodd Merthyr i gyflwyno llawer o sesiynau'n ddigidol gyda'r nod o gefnogi dysgu, mwynhad a galluogi cwsmeriaid i gael y budd mwyaf o'r adnoddau oedd ar gael, yn gorfforol ac yn rhithwir. Gweithiodd y staff gydag unigolion a grwpiau o bob oed.
- Gwelodd y gwasanaeth gynnydd yn yr ymweliadau â'r wefan.
- Mae rôl Cynorthwydd Cefnogi newydd yn golygu bod y rhan fwyaf o weithgareddau bellach yn cael eu darparu'n ddwyieithog.

---

<sup>7</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/llyfrgelloedd-cysylltiedig-ac-uchelgeisiol-chweched-fframwaith-ansawdd-safonau-llyfrgelloedd-cyhoeddus-cymru-2017-i-2020.pdf> (llyw.cymru)

- Mae partneriaeth gyda'r Ganolfan Gymraeg leol hefyd yn gymorth i'r gwasanaeth sicrhau bod gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cynnal.
- Roedd y cynllun 'galw a chasglu' yn hynod boblogaidd.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Cyflwynodd y gwasanaeth ddwy astudiaeth achos i ddangos ei effaith yn ystod 2020/21 (enghraifft isod). Fideos ar-lein oedd y rhain yn arddangos ffotograffau hanes lleol, a chyfranogiad staff mewn prosiectau gwirfoddoli a dod at ei gilydd yn ystod y cyfyngiadau.

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn i ddod, mae Merthyr yn nodi mai'r flaenoriaeth allweddol fydd adfer lefel y gwaith a'r gweithgaredd cyn-bandemig mewn ffordd ddiogel.

Y flaenoriaeth fydd canolbwyntio ar blant ac ieuchyd a lles, gyda'i rôl yn y maes hwn yn cael ei gydnabod gan yr ymddiriedolaeth a'r cyngor. Mae proffil y llyfrgell wedi mynd i fyny o ganlyniad i'r gwaith yn y maes hwn. Mae hyrwyddo a chyflwyno gweithgareddau sy'n ymwneud â hybu ieuchyd yn hanfodol i wytnwch y gwasanaeth. Yn ogystal, bydd y gwasanaeth yn datblygu gwaith ynghylch Strategaeth y Gymraeg mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol.

## **Crynodeb**

Er gwaethaf un o'r lefelau gwariant isaf fesul 1000 o'r boblogaeth, mae'r gwasanaeth yn gweithio'n galed i ymgysylltu â phawb ac â'i gymunedau amrywiol. Un o'i gryfderau yw brwdfrydedd y staff, ac ieuchyd a lles. Byddai unrhyw fuddsoddiad pellach yn galluogi'r gwasanaeth i ail-gysylltu â chwsmeriaid newydd a chyn-gwsmeriaid yn y dyfodol.

## **Astudiaeth Achos**

Digwyddodd y cyfnod clo cyntaf yn sydyn. Ymatebodd staff yn gyflym a sefydlu rhwydweithiau ar lwyfannau digidol amrywiol i gadw mewn cysylltiad a rhannu newyddion ac i sicrhau nad oedd neb ar ei ben ei hun ar adeg mor anodd.

Aeth y tîm ati i chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli a dechreuodd llawer ohonynt drwy ddsbarthu prydau ysgol am ddim i blant ym Merthyr. Cadwodd staff hefyd mewn cysylltiad â chwsmeriaid Homelink i sicrhau nad oeddent wedi eu hynysu.

Daeth rhai aelodau o'r staff yn gefnogwyr y GIG drwy gasglu bwyd a nwyddau ymolchi i'w rhoi i'r ysbytai lleol lle roedd staff dan bwysau aruthrol.

Pan ddaeth y newyddion bod aelod o staff wedi colli ei gŵr, roedd y tîm unwaith eto yn cefnogi ei gilydd, gan anfon negeseuon o gefnogaeth, blodau a chardiau a dymuniadau i'r teulu cyfan. Ar ddiwrnod yr angladd, er gwaethaf cyfyngiadau cloi a dim cyswllt corfforol, fe wnaethant eu ffordd i leoliad yr angladd i sefyll y tu allan i gefnogi eu cydweithiwr, rhywbeth na chaiff byth ei anghofio.

## SIR FYNWY

Darperir gwasanaethau llyfrgell yn Sir Fynwy gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 6 changen ac 1 cerbyd danfon i'r cartref, gyda 73% o'r trigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell.

### Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell

Mae'r gwasanaeth yn adrodd ei fod yn cwrdd â'r holl hawliau craidd yn llawn.

Gwelodd Sir Fynwy gynnydd o 60% yn ei lawrlwythiadau digidol. Mae fymryn yn is na'r chwarter uchaf ar gyfer benthyciadau digidol fesul 1000 o'r boblogaeth. Mae Sir Fynwy yn un o bymtheg awdurdod a welodd ostyngiad yn aelodaeth llyfrgelloedd yn 2020/21 o gymharu â 2019/20 oherwydd y pandemig. Bu gostyngiad cyffredinol bychan yn aelodaeth llyfrgelloedd ers 2017/18.

Mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi cael ei integreiddio â'r Hybiau Cymunedol ond ar gyfer 2020/21 mae adroddiadau wedi addasu ei adroddiadau ariannol a staffio i adlewyrchu cyllideb y llyfrgell ar wahân. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws cymharu ar draws Cymru ond mae'n golygu bod y tueddiadau dros y blynyddoedd blaenorol yn llai defnyddiol. Bu cynnydd i'w groesawu yn y gwariant ar ddeunyddiau yn 2020/21. Ar gyfer 2020/21 mae fymryn yn is na'r chwarter uchaf ar gyfer gwariant ar ddeunyddiau fesul 1000 o'r boblogaeth. Mae'r gwariant ar blant a deunyddiau Cymraeg ill dau yn is na chyfran y grwpiau hyn yn y boblogaeth, ac roedd y gwariant ar y Gymraeg yn 2020-21 yn hynod o isel ar 1%, a'r boblogaeth Gymraeg yn Sir Fynwy yn 7.9%.

Oherwydd newid yng nghyfrif oriau staff llyfrgell i wahanu gwaith llyfrgell oddi wrth yr Hybiau Cymunedol unedig bu gostyngiad sylweddol yn nifer y staff, a chyfanswm y staff fesul 10,000 o'r boblogaeth yw'r isaf yng Nghymru. Mae nifer y staff y nodwyd bod ganddynt gymwysterau cydnabyddedig wedi aros yr un fath ac mae yn y chwarter isaf ar gyfer Cymru.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Darparodd y gwasanaeth ddarlleniadau barddoniaeth ar-lein drwy gydol 2020/21 a defnyddiodd gyfrifon cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo adnoddau electronig.
- Parhaodd y gwasanaeth i brynu e-adnoddau ychwanegol megis *Which?* a *FindMyPast*.
- Gweithredwyd gwasanaeth 'cais a chasglu/danfon' poblogaidd a bydd yn cael ei gadw yn y dyfodol.
- Bu cael eu cynnwys yn sesiynau staff rhithwir wythnosol y cyngor a derbyn cylchlythyrau yn gymorth i hyrwyddo gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn.
- Drwy gymorth gan gronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 prynwyd iPads ac offer digidol oedd yn gymorth i wella darpariaeth gwasanaethau rhithwir. Roedd Sir Fynwy yn gallu cynnig mwy o amrywiaeth o

sesiynau digidol, gan arwain at welliant mewn ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Cyflwynodd y gwasanaeth astudiaethau achos (enghraifft isod) oedd yn dangos yr effaith a gafodd y gwasanaeth cais a chasglu ar unigolion, gan wella eu hiechyd a'u lles, a lleihau teimladau o ynysigrwydd. Oherwydd mynediad cartref i wasanaethau hanes teulu ar-lein galluogwyd prosiect hanes merched lleol i barhau, gan ddod â buddion i'r rhai oedd yn cymryd rhan.

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn i ddod, mae Sir Fynwy yn parhau i adrodd bod model yr hwb cymunedol yn gweithio'n dda. Mae dysgu cymunedol yn parhau i fod yn flaenoriaeth gyda dosbarthiadau'n cael eu cynnig i gefnogi pobl gyda llythrennedd, rhifedd a chwilio am waith. Bydd gwasanaethau digidol yn parhau i gael eu hyrwyddo a bydd buddsoddiad pellach mewn adnoddau electronig yn gwella gwytnwch y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn bwriadu parhau i gydweithio ag asiantaethau partner yn y dyfodol er mwyn canfod mwy o bobl sy'n gaeth i'r tŷ ac sydd angen y gwasanaeth danfon ac annog pobl i ddychwelyd i'r canolfannau ffisegol.

## **Crynodeb**

Mae Sir Fynwy wedi cryfhau ei darpariaeth a'i defnydd digidol ac mae'n parhau i gefnogi cynhwysiant digidol ac iechyd a lles yn yr awdurdod yn effeithiol. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu ail-ymgysylltu â chyn-gwsmeriaid a chwsmeriaid newydd ac adeiladu ar fodel yr hwb cymunedol. Bydd angen cefnogi'r gwasanaeth â lefelau priodol o gyllid refeniw i gyflawni hyn.

## **Astudiaeth Achos**

Trwy Dechrau Da anelwn at ddarparu llyfrau, adnoddau ac arweiniad am ddim i bob teulu yn Sir Fynwy pan fydd eu plant yn eu blwyddyn gyntaf o fywyd ac eto pan fyddant yn blant bach. Yn ystod 2020/2021, roedd yn anodd dosbarthu pecynnau Dechrau Da yn y ffordd arferol ond, drwy weithio gyda Booktrust, bu modd i ni drefnu danfoniadau i Dechrau'n Deg a danfoniad i Ymwelwyr Iechyd yng ngogledd a de'r sir.

Mae rhannu storiâu a rhigymau o oedran cynnar yn arwain at nifer o ganlyniadau, gan gynnwys datblygu sgiliau iaith cynnar, llafaredd a chyfathrebu cadarnhaol, y cwlwm rhiant-plentyn, a llythrennedd cynnar. Yn ystod 2020/2021, llwyddasom i gynnal sesiynau amser stori wythnosol ac ambell Amser Hwiangerddi i Fabanod drwy'r cyfryngau cymdeithasol.



## CASTELL-NEDD PORT TALBOT

Darperir gwasanaethau llyfrgell yng Nghastell-nedd Port Talbot gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 8 cangen, 1 llyfrgell deithiol ac 1 cerbyd cludo i'r cartref, gyda 90% o'r trigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell. Mae'r gwasanaeth llyfrgell hefyd yn cynorthwyo 7 o lyfrgelloedd sydd wedi'u eu rheoli gan y gymuned gydag adnoddau (gan gynnwys staffio a stoc) ond mae'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru 2014 drwy beidio â chynnwys gweithgarwch y llyfrgelloedd sydd wedi'u rheoli gan y gymuned yn ei ddatganiad SLICC. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth yn 'colli allan' ar fenthyciadau gan gwsmeriaid llyfrgelloedd sydd wedi'u rheoli gan y gymuned nad ydynt yn cael eu hadrodd yma, tra mae'r gwariant yr adroddir amdano yn cwmpasu *pob* llyfrgell.

### Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell

Mae'r gwasanaeth yn adrodd ei fod yn cwrdd â'r holl hawliau craidd yn llawn.

Castell-nedd Port Talbot yw un o'r ychydig wasanaethau i weld cynnydd bychan yn aelodaeth llyfrgelloedd yn 2019/20 ac maent yn priodoli hyn i'r cynnig ar-lein gwell gyda phobl yn gallu ymuno ar-lein. Mae'r gwasanaeth wedi gweld gostyngiad o 6% yn y gyllideb adnoddau ers 2017/18, a allai fod wedi effeithio ar ddefnydd, er mai bychan ydoedd. Fodd bynnag, bu cynnydd mewn gwariant ar adnoddau plant yn 2020/21 i gynorthwyo gyda gofynion dysgu gartref yn ystod Covid. Mae'r gwasanaeth fymryn yn uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau plant fesul 1000 o'r boblogaeth yn 2020/21.

Er y bu gostyngiad bychan mewn gwariant ar adnoddau Cymraeg, mae Castell-nedd Port Talbot wedi nodi bod hyn yn rhannol oherwydd diffyg deunyddiau addas oedd ar gael, a newid cyflenwr. Mae'r gwasanaeth yn disgwyl i'r maes hwn wella yn y blynyddoedd i ddod. Mae gwariant ar ddeunyddiau yn parhau ar y lefel ganolrifol ar draws gwasanaethau yng Nghymru, ac mae hefyd ar y canolrif ar gyfer benthyciadau yn ymwneud â'r Gymraeg fesul 1000 o siaradwyr Cymraeg.

Er y bu gostyngiad bychan yn y gwariant, mae lefelau staffio wedi aros yr un fath ers 2018/19, gyda chyfanswm y staff proffesiynol yn uwch na'r lefel ganolrifol yng Nghymru.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Cynigiodd y gwasanaeth amrywiaeth o weithgareddau digidol gan gynnwys caneuon a rhigymau, celfyddydau creadigol, gweithgareddau plant, grwpiau darllen, ochr yn ochr â digwyddiadau oedd yn hybu llythrennedd a dysgu oedolion.
- Ymrwymodd y gwasanaeth i raglen wythnosol o ddigwyddiadau ar-lein am 12 mis oedd yn creu ymdeimlad cadarnhaol o gymuned i bawb a ymunodd.

- Cynyddodd lawrlwythiadau digidol yng ngwasanaeth llyfrgell Castell-nedd Port Talbot o 78%. Fe wnaeth ehangu eu harlwy ddigidol i gynnwys papurau newydd drwy *PressReader* chwarae rhan yn y cynnydd.
- Drwy gymorth gan gronfa Cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 bu'n bosibl prynu llechi (*tablets*) a alluogodd y gwasanaeth i gyflwyno cynllun benthyca llechen, a gafodd effaith gadarnhaol ar hyrwyddo gwasanaethau digidol.
- Sefydlodd y gwasanaeth llyfrgell brosiect peilot i roi benthyg chwaraewyr MP3, gydag e-Lyfrau Llafar o'u dewis i bobl â nam ar eu golwg.
- Gwnaed gwelliant i'r gwasanaeth danfon i gynnwys gwasanaeth casglu o ymyl y ffordd a gwasanaeth galw a chasglu.

Fe wnaeth y gwasanaeth hefyd ddileu dirwyon dros dro yn ystod y pandemig, ac yna ei wneud yn bolisi parhaol i beidio â chodi dirwyon am ddychwelyd yn hwyr.

### **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Mae astudiaethau achos ar effaith y gwasanaeth danfon i'r cartref, grwpiau darllen ar-lein, Amser Stori Sul ar-lein, a grwpiau celf a lles ar-lein, yn dangos yr effaith y mae'r gwasanaeth a'r staff wedi'i chael ar iechyd a lles pobl, eu sgiliau, eu hymdeimlad o gymuned a'u hyder (enghreifftiau isod).

Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod canlyniadau arfaethedig adolygiad 2019 o'i wasanaeth llyfrgell wedi cael eu cyflawni, er gwaethaf y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol gwell a mwy hyblyg a Gwasanaeth Danfon i'r cartref wedi'i ailwampio, gydag un cerbyd newydd yn ei le a disgwyl un cerbyd trydan arall. Mae datblygiad arfaethedig llyfrgell newydd yng nghanol tref Castell-nedd hefyd yn mynd rhagddo. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau ac adnoddau ym meysydd cynhwysiant digidol, iechyd a lles, llythrennedd plant, a dysgu gydol oes. Mae llwyddiant y gwasanaeth casglu ymyl y ffordd a'r gwasanaeth galw a chasglu yn golygu y caiff y rhain eu cadw yn y dyfodol.

Mae'r gwasanaeth yn rhagweld y caiff Strategaeth Llyfrgell newydd ei llunio ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn ystod 2022, unwaith y ceir golwg glir ar y blaenoriaethau corfforaethol ar ôl y pandemig.

### **Crynodeb**

Mae gwerth gwasanaeth gwydn a reolir yn dda yn amlwg gan i'r gwasanaeth addasu'n gyflym a chynnal ei ymgysylltiad cymunedol, gan gynyddu lefelau aelodaeth hyd yn oed. Gostyngodd benthycwyr gweithredol ganran yn llai nag mewn llawer o awdurdodau yn ystod 2020/21. Bydd buddsoddiad pellach yn galluogi'r gwasanaeth i adeiladu ar ei lwyddiannau diweddar.

### **Astudiaeth Achos 1**

Bu gan Lyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot gymuned ddarllen gref ers blynyddoedd lawer. Mae'r grŵp hwn yn rhoi cyfle amhrisiadwy i bobl ddod at ei gilydd i rannu eu

barn am lyfrau ac i gwrdd â phobl yn eu cymuned. Mewn blwyddyn o heriau cyson, un arall a gyflwynodd ei hun oedd sut i gadw grwpiau darllen i fynd a sicrhau bod pobl yn dal i allu cyfrannu a rhannu eu barn ar adeg pan nad oedd cyswllt wyneb yn wyneb yn bosibl.

Yn Llyfrgell Baglan roedd y staff yn deall gwerth y grŵp darllen oedd wedi bod yn rhedeg ers blynyddoedd lawer a sefydlodd amrywiol ddulliau cyfathrebu, megis e-bost, WhatsApp, a Facebook i gadw cysylltiad o fewn y grŵp. Sicrhaodd staff y llyfrgell y gallai aelodau'r grŵp gysylltu â hwy gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Unwaith yr oedd llyfrgelloedd yn gallu cynnig gwasanaeth Galw a Chasglu bu'r staff yn gweithio i ddarparu llyfrau rheolaidd i aelodau'r grŵp a chyfleoedd i drafod a rhannu syniadau. Llwyddasant hyd yn oed i oresgyn yr her o gael un aelod o'r grŵp wedi ei ddal yn Seland Newydd am ran helaeth o'r flwyddyn.

Sicrhaodd ymdrechion staff y llyfrgell fod y grŵp hwn yn parhau i gyfarfod drwy gydol y pandemig, drwy symud i gyfarfodydd misol ar-lein. I aelodau'r grŵp roedd hyn yn golygu pethau gwahanol. I un aelod roedd yn bwysig iawn i'w hiechyd meddwl a'i lles i allu darllen gyda'i gilydd fel grŵp, ac i aelodau eraill roedd yn eu galluogi i normaleiddio eu diwrnod mewn cyfnod o aflonyddwch mawr. I lawer, mae'r grŵp yn debyg i deulu a thrwy gadw gyda'i gilydd helpodd i greu ymdeimlad o berthyn pan oeddent wedi eu hynysu yn eu cartrefi. Ni fyddai hyn wedi digwydd heb gefnogaeth staff y llyfrgell.

Mae'r gair rhaff achub wedi cael ei ddefnyddio'n aml mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn ystod y pandemig ac ar gyfer aelodau'r grŵp darllen mae'n briodol iawn. Mae wedi bod yn hanfodol i'w hiechyd a'u lles.

## **Astudiaeth Achos 2**

Pan nad oedd llyfrgelloedd yn gallu cynnig gwasanaethau corfforol, personol, symudodd Castell-nedd Port Talbot lawer o wasanaethau ar-lein. Sefydlwyd grŵp Facebook, 'Dechrau Da CNPT a Chân a Rhigwm'.

Cyflwynodd y llyfrgell lawer o sesiynau caneuon a rhigymanau wedi'u recordio a thua diwedd 2020 cynigiwyd sesiynau byw ddwy neu dair gwaith yn ystod rhai wythnosau.

Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn gyda llawer yn mynegi diolch fod y grŵp wedi parhau i gyflwyno digwyddiadau caneuon a rhigymanau:

*"I would have been lost without song and rhyme every week. I love to have that time with my son sharing songs and stories together. It's been hard but it's helped me a lot, especially talking to others."*

Mae grŵp Caneuon a Rhigymanau Dechrau Da wedi parhau i ffynnu. Mae bellach yn rhan sylfaenol o'r gwasanaethau digidol a gynigir ac wedi denu cwsmeriaid newydd.

## CASNEWYDD

Darperir gwasanaethau llyfrgell yng Nghasnewydd gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 9 cangen a gwasanaeth danfon i'r cartref, gyda 97% o'r trigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell.

### Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell

Mae'r gwasanaeth yn adrodd ei fod yn cwrdd ag 11 o'r hawliau craidd yn llawn, ac un yn rhannol, gan fod ei strategaeth i fod i gael ei hadnewyddu ac y caiff ei chynhyrchu yn unol â'r strategaeth gorfforaethol newydd yn 2022.

Mae Casnewydd yn un o bymtheg awdurdod a welodd ostyngiad yn aelodaeth llyfrgelloedd yn 2020/21 o gymharu â 2019/20 oherwydd y pandemig. Bu gostyngiad yn aelodaeth llyfrgelloedd ers 2017/18 ac er bod gostyngiad i'w ddisgwyl yn 2020/21, gellid ymchwilio i'r duedd tymor hwy er mwyn penderfynu sut i gyrraedd cwsmeriaid newydd a chyn-gwsmeriaid.

Bu gostyngiad bychan o 6.6% yn y gyllideb ddeunyddiau ers 2017/18, er bod y gwasanaeth yn parhau i fod tua'r canolrif ar gyfer Cymru fesul 1000 o'r boblogaeth ar gyfer y dangosydd hwn. Byddai'n fuddiol i'r gwasanaeth ystyried sut mae'n caffael deunyddiau a'r cysylltiad posibl rhwng y dewis o ddeunyddiau a lefelau'r benthyrcwr gweithredol fesul 1000 o'r boblogaeth.

Mae'r gwasanaeth wedi cadw ei wariant ar ddeunyddiau Cymraeg ac yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i wneud y defnydd gorau o'r casgliad. Mae Casnewydd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Mudiad Meithrin i gynnig sesiynau amser stori Cymraeg a sesiynau tylino babanod mewn llyfrgelloedd ac mae'r sesiynau hyn yn helpu i hybu'r defnydd o'r stoc Gymraeg i blant iau.

Ni fu unrhyw newidiadau yn y lefelau staffio ers 2019/20 ac mae nifer y staff y nodwyd bod ganddynt gymwysterau cydnabyddedig yn parhau i fod yn uwch na'r lefel ganolrifol ledled Cymru.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Cynyddodd lawrlwythiadau digidol Casnewydd o 71%.
- Symudodd y gwasanaeth lawer o weithgareddau ar-lein yn ystod 2020/21, a chynyddodd y buddsoddiad mewn e-adnoddau.
- Gweithredodd y gwasanaeth gynllun galw a chasglu newydd.
- Rhoddodd Casnewydd flaenoriaeth i adnoddau a gwasanaethau plant yn ystod y pandemig er mwyn bod o gymorth i gefnogi dysgu pobl ifanc.
- Cysylltodd staff y llyfrgell â chleientiaid bregus yn eu cartrefi yn rheolaidd i weld sut roedd eu hiechyd a'u lles.

- Drwy gymorth gan gronfa Cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 prynwyd pedwar ciosg hunanwasanaeth cyfrifiadurol a'i gwnaeth yn bosibl i'r gwasanaeth ailagor i ymweliadau safle llyfrgelloedd yn gynharach nag a fyddai wedi bod yn bosibl heb yr offer hwn. Mae ciosgau hunanwasanaeth bellach ar gael ym mhob un o safleoedd llyfrgell Casnewydd.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Darparodd y gwasanaeth astudiaethau achos (enghraifft isod) yn dangos effaith fuddiol ei wasanaeth danfon i'r cartref i gwsmeriaid oedd yn gaeth i'r tŷ; manteision iechyd a lles grŵp ar-lein creadigol; a manteision iechyd a lles y grŵp Darllen ar y Cyd yn cyfarfod ar-lein yn ystod y pandemig – arfer y maent yn parhau i'w ddilyn ers hynny.

Wrth adrodd am gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn i ddod, mae Casnewydd yn nodi integreiddio'r gwasanaeth llyfrgell â model yr Hwb Cymdogaeth newydd o dimau amlddisgyblaethol. Bydd gwasanaethau llyfrgell wedi eu lleoli yn lleoliadau y 4 prif ganolfan a bydd llyfrgelloedd cangen yn gweithredu fel adain gydag aelodau o dîm ehangach yr hwb yn darparu gwasanaethau. Agorodd yr Hwb cyntaf ym mis Ionawr 2020 gyda'r llyfrgell yn ganolog i'w ddarpariaeth. Yn anffodus, mae'r pandemig wedi golygu na fu modd asesu perfformiad y safle, ond cyn cau roedd tystiolaeth bod y gwasanaeth llyfrgell yn elfen greiddiol o'r adeilad hwn. Caiff strategaeth llyfrgell newydd ei datblygu yn ystod 2021/22.

## **Crynodeb**

Mae Casnewydd yn ymgysylltu'n gryf â phartneriaid yn enwedig mewn dysgu cymunedol, ymgysylltu digidol, ac iechyd a lles, ond cymharol isel yw ei buddsoddiad mewn rhai meysydd. Dylai strategaeth y dyfodol helpu'r gwasanaeth i fanteisio ar ei adnoddau i ddenu mwy o gwsmeriaid a mwy o ddefnydd o'r llyfrgelloedd.

## **Astudiaeth Achos**

Oherwydd y pandemig, symudodd y grŵp darllen ar y cyd ar-lein. Digwyddodd y mudo o fewn wythnosau cyntaf y cyfnod clo. Parhaodd mwyafrif y Grŵp Darllen ar y Cyd i gyfarfod rhwng 11a.m. a 12:30p.m. bob dydd Mercher drwy gydol 2020/21.

Mae'r grŵp Darllen ar y Cyd wedi bod yn hanfodol i iechyd meddwl a lles aelodau'r grŵp oherwydd yn ystod y cyfnod clo dyma oedd yr unig fath o gyswllt, er mai yn rhithwir yr oedd, a gâi llawer o bobl y tu allan i'w teulu agos.

Yn ystod y pandemig, estynnwyd y 10 i 15 munud o sgwrsio ar ddechrau'r sesiynau gan iddo brofi'n gyflym i fod yn rhan hanfodol o'r sesiynau, gan roi'r cyfle i gyfnewid newyddion a phryderon a chlywed am les corfforol a meddyliol y naill a'r llall.

Roedd pob sesiwn yn dod i ben gyda'r Llyfrgellydd Bro yn darllen stori fer a/neu gerdd ac i gadw diddordeb o wythnos i wythnos ac i gynnig testunau siarad ychwanegol defnyddiwyd themâu misol. Ymhlith y themâu roedd "*Murder Most Foul*," "*Twisted Tales*," "*Ghost Stories*," "*Speculative Fiction*" a "*Fairy Tales: Classic and Modern*." Y themâu mwyaf poblogaidd, o ystyried y cyfyngiadau, oedd ein "Taith o gwmpas y Byd,"

a barhaodd am dri mis, lle dewisodd y Llyfrgellydd Bro Chwedlau Gwerin a storïau byrion gan awduron Clasurol a modern o wahanol wledydd o amgylch y byd.

Bu pob stori a cherdd yn ysbrydoliaeth wych ar gyfer rhannu straeon personol, barn, ac argymhellion ar gyfer darllen pellach. Ymhlith adborth cwsmeriaid roedd y canlynol:

*“During the last year, the Shared Reading Group has been a little taste of normality in a very strange world. We have a very happy group, with a wide range of interests and tastes in literature and we have become very good friends meeting every week in our WhatsApp group...at 11am [to] spend a very interesting hour and a half with our short stories and personal news. This service has impacted on me greatly as I live alone, and it is something to look forward to on a Wednesday. To feel a little more cultured and knowledgeable and less lonely by the end of our session.”*

## SIR BENFRO

Darperir gwasanaethau llyfrgell yn Sir Benfro gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 12 cangen ac 1 llyfrgell deithiol, gydag 83% o'r trigolion yn byw o fewn 3 milltir i llyfrgell neu o fewn ¼ milltir i arhosfan y llyfrgell deithiol.

### Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell

Fe wnaeth Sir Benfro gwrdd â 10 o'r 12 o hawliau craidd yn llawn, a 2 yn rhannol (strategaeth llyfrgell a rhoi benthyg llyfrau am ddim). Rhoddwyd heibio dros dro y ffi am gadw eitemau, nad oeddent yng nghanen y cwsmer ond oedd ar gael mewn canghennau eraill yn Sir Benfro, yn ystod cyfyngiadau COVID-19, ond roedd trefniant o'r fath wedi ei gyfyngu i 2 y cwsmer. Sir Benfro yw'r unig wasanaeth yng Nghymru sy'n parhau i godi'r ffi hon. Fodd bynnag, dylid nodi bod y rhesymau yn rhai daearyddol yn bennaf.

Gwelodd y gwasanaeth gynnydd bychan yn aelodaeth llyfrgelloedd, un o ddim ond 7 awdurdod lle digwyddodd hyn yn 2020-21. Fodd bynnag, yn y tymor hwy bu gostyngiad ers 2017-18. Yn 2020-21, roedd y gwariant ar adnoddau plant yn is na'r gwariant cyfartalog ledled Cymru, sef 14%. Bu gostyngiad o 9% yn y gwariant ar stoc i blant ers 2019/20. Fodd bynnag, cyn y pandemig, roedd benthyciadau i blant iau wedi cynyddu'n flynyddol ers 2017/18. At hynny, mae cyfran cyfanswm y gyllideb ddeunyddiau a wariwyd ar adnoddau plant wedi cynyddu 2% ers 2018/19.

Ynghyd â gostyngiadau dros dro i'r gyllideb ddeunyddiau oherwydd y pandemig, gwnaed toriad parhaol, ac mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi gostwng 37% ers 2017/18. Mae Sir Benfro bellach yn y chwarter isaf yn y maes hwn yng Nghymru.

Mae gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg fesul 1000 o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg wedi lleihau a byddai'n fuddiol ystyried buddsoddiad pellach yn y maes hwn yn y dyfodol, yn benodol, mewn perthynas â marchnata wedi'i dargedu a hyrwyddo stoc. Fodd bynnag, mae'r gallu i siarad Cymraeg bellach yn ofyniad gorfodol ar gyfer swyddi rheng flaen newydd ac mae'r gwasanaeth yn darparu amser a chyllid i staff ddysgu Cymraeg, a dylai hynny fod o gymorth yn y tymor hwy.

Bu gostyngiad bach yn nifer y staff ers 2019/20 er bod hyn oherwydd bod person ar secondiad yn dychwelyd a'r staff dros dro newydd yn gadael. Mae cyfanswm y staff y nodwyd bod ganddynt gymwysterau cydnabyddedig fesul 10,000 o'r boblogaeth yn parhau i fod yn uwch na'r lefel ganolrifol ar draws Cymru.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Cynyddodd benthyciadau digidol yn sylweddol o 66%.
- Cyflwynodd y gwasanaeth rai gweithgareddau ar-lein, megis amser hwiangerddi babanod gan ddefnyddio Facebook.
- Parhaodd Sir Benfro i fod yn rhan o Sialens Darllen yr Haf, gan sicrhau bod adnoddau ar gael i blant drwy'r gwasanaeth archebu a chasglu.

- Gweithredwyd gwasanaeth archebu a chasglu.
- Cyflawnodd y mwyafrif o staff llyfrgelloedd gyrsiau ar-lein yn ystod y pandemig, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad personol.
- Galluogodd cymorth gan gronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 y gwasanaeth i ddarparu cynllun marchnata a chyfathrebu effeithiol. Ymgwymerwyd â marchnata gwasanaethau drwy erthyglau golygyddol/hysbysebion mewn papurau newydd gyda rhai ffeithluniau, mewn print ac ar gyfryngau cymdeithasol. Prynwyd nwyddau i hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau yn y llyfrgell.

### **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Darparodd y gwasanaeth Astudiaethau Achos (enghraifft isod) ar effaith fuddiol y gwasanaeth archebu a chasglu, yn arbennig ar gyfer iechyd a lles, plant a theuluoedd; ac ar yr effaith ar aelod o staff a ddilynodd hyfforddiant Estyn Allan.

Wrth adrodd am gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn i ddod, mae Sir Benfro'n nodi bod strategaeth llyfrgelloedd 2021-2023 yn y camau olaf o gael ei datblygu. Y blaenoriaethau allweddol fydd iechyd a lles a threchgu tlodi, ynghyd â'r bartneriaeth gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer llyfrgell Glan yr Afon a fydd yn un o dri lleoliad yn unig yn y DU i elwa o daith Campwaith yr Oriol Genedlaethol [Llundain] yn 2022.

Mae Sir Benfro yn parhau i fuddsoddi yn natblygiad gwasanaethau llyfrgell, gyda phrosiectau i gyflwyno cyfleusterau hunanwasanaeth eisoes ar waith yn Llyfrgell Doc Penfro yn 2022; adeiladau newydd yn Arberth a Phenfro, sydd i'w cwblhau yn y drefn honno yn 2023 a 2024. Mae Arberth yn dibynnu ar lwyddiant cais am grant. Bydd y ddwy yn darparu hunanwasanaeth a mynediad oriau agor gwell ac yn cynnwys partneriaethau gyda'r gymuned leol a gwirfoddolwyr.

### **Crynodeb**

Mae Sir Benfro wedi buddsoddi yn ei hystâd lyfrgelloedd yn y blynyddoedd diwethaf ac mae yna gynlluniau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf pellach gyda rhai prosiectau cyffrous yn cael eu cyflawni. Mae'n bwysig i lefel y cyllid refeniw fod yn ddigonol i sicrhau bod buddion y buddsoddiad cyfalaf yn cael eu gwireddu.

Fodd bynnag, efallai y byddai'n fuddiol adolygu lefel y buddsoddiad refeniw, oherwydd ei bod yn ymddangos bod meysydd perfformiad gwannach y gwasanaeth yn uniongyrchol gysylltiedig â gostyngiadau mewn buddsoddiad [e.e. stoc llyfrau]. Mae hyn yn bwysig i wneud y gorau o'r gwasanaeth ac i annog pobl yn ôl i lyfrgelloedd. Gall diffyg stoc newydd a phriodol arwain at ostyngiad yn nifer yr aelodau newydd a gostyngiad yn lefelau'r defnydd.



## Astudiaeth Achos

Mae aelod o staff o Sir Benfro yn disgrifio ei phrofiad o gymryd rhan ym mhrosiect Estyn Allan. Nod y prosiect oedd cyflwyno rhaglen hyfforddi i alluogi staff i ddatblygu'r gweithgareddau digidol sydd ar gael i gwsmeriaid y llyfrgell.

Roedd yr hyfforddiant yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau yn ystod y cyfnod o dri mis pan ddysgodd staff lawer iawn am gyflwyno cynnwys digidol. Roedd y sgiliau a'r wybodaeth a enillwyd yn cynnwys:

- Dewis a phrynu offer a meddalwedd i greu cynnwys.
- Defnyddio offer camera a meddalwedd golygu fideo.
- Cyflwyno cynnwys mewn fformatau gwahanol, megis podlediadau a blogiau.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo llyfrgelloedd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd llyfrgelloedd.

Ymgwymerodd yr aelod o staff hefyd â thri modiwl datblygu darllenwyr Agor y Llyfr. Roedd y rhain yn cynnig llawer o wybodaeth ymarferol am hyrwyddo stoc yn y llyfrgell ac yn ddigidol.

Rhannwyd yr hyfforddiant gydag aelodau eraill o staff. Cymerodd staff ran mewn 134 awr 15 munud o hyfforddiant i gyd. Arweiniodd hyn at greu syniadau a brwdfrydedd dros weithgareddau ar-lein.

Roedd hyfforddeion ledled Cymru yn gallu rhannu syniadau, gwybodaeth ac arfer da a chynnig cymorth i'w gilydd. Nododd yr aelod o staff:

*“Going forward I feel much more confident about the provision on online content. I now have an understanding of our social media audience (currently just Facebook) and can tailor the content accordingly. The next step in the long term (depending on staff capacity) is to produce a Social Media Plan to promote wider participation.”*

## **POWYS**

Darperir gwasanaethau llyfrgell ym Mhowys gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 16 cangen a 2 lyfrgell deithiol, gyda 76% o'r trigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell.

### **Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell**

Mae'r gwasanaeth yn adrodd ei fod yn cwrdd â 10 o'r 12 hawl craidd yn llawn, 1 yn rhannol ac nad oedd yn cwrdd ag 1 (rhoi llyfrau ar fenthyg; yn rhannol a strategaeth llyfrgell; dim yn cwrdd â hwn).

Mae Powys yn un o ddim ond saith gwasanaeth a welodd gynnydd mewn aelodaeth llyfrgell yn ystod 2020-21. Bu gostyngiad yn y gyllideb ddeunyddiau yn 2020-21. Fel y nodwyd gan awdurdodau eraill, effeithiwyd ar y gallu i brynu deunyddiau gan adleoli staff a hefyd y diffyg deunyddiau oedd ar gael. Er hynny, bu gostyngiad o 33% yn y gyllideb ddeunyddiau ers 2017/18.

Er bod y gyllideb ddeunyddiau bellach ymhlith yr isaf yng Nghymru fesul 1000 o'r boblogaeth, mae'r benthyciadau i oedolion a phlant yn yr ail gwartel. Mae hyn yn awgrymu bod y gwasanaeth yn gwneud y gorau o'i wariant ac yn dewis stoc addas i'w gwsmeriaid. Cafodd gwariant ar adnoddau Cymraeg ei gynnal ac mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda gyda phartneriaid lleol i ymroi i hybu ei gasgliad Cymraeg a dysgu Cymraeg. Mae'r aelod o staff sy'n gyfrifol am ddewis y stoc yn aelod gweithredol o banel Arddangos Cymru, sy'n llunio rhestr flynyddol o'r gweithiau Cymreig yn Saesneg fel rhestr wirio ar gyfer awdurdodau llyfrgell.

Bu gostyngiad o 10% yn nifer y staff ers 2019/20. Mae cyfanswm y staff sydd wedi eu nodi fel yn meddu ar gymwysterau cydnabyddedig yn parhau ar y lefel ganolrifol ar draws Cymru, gyda nifer o staff yn cael eu cynorthwyo i ennill cymwysterau.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Mae gwasanaeth Powys yn nodi cynnydd trawiadol o 77% mewn lawrlwythiadau digidol ers 2019/20.
- Mae gweithgareddau fel sesiynau amser rhigymanau ac amser stori wedi cael eu cefnogi a'u hyrwyddo'n dda.
- Roedd y rhaglen o ddigwyddiadau ar-lein a ddarparwyd yn cynnwys gweithdai cymorth ariannol.
- Mae Powys wedi parhau i fod yn rhan o gynllun Dechrau Da, a ddarperir gan BookTrust. Parhaodd y fenter hon ochr yn ochr â Sialens Ddarllen yr Haf, er gwaethaf y cyfyngiadau.
- Cynhaliodd y gwasanaeth raglen ar-lein o ddigwyddiadau i blant ac oedolion drwy gydol y pandemig.

- Galluogodd cefnogaeth gan gronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 y gwasanaeth i brynu argraffwyr Wi-Fi, a'i gwnaeth yn bosibl argraffu o fewn hybiau cymunedol, tra'n cyfyngu ar gysylltiad y cyhoedd â'r offer.
- Gweithredwyd gwasanaeth clicio a chasglu.

## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Darparodd y gwasanaeth nifer o astudiaethau achos (enghraifft isod) yn dangos manteision ei brosiectau digidol gan gynnwys y dyfeisiadau a fenthyciwyd, y llinell gymorth ddigidol â staff; ei wasanaeth clicio a chasglu; a rhaglen o ddigwyddiadau ar-lein.

Bydd adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn i ddod, ailadeiladu gwasanaethau ac annog aelodau i ddychwelyd i adeiladau llyfrgell ffisegol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae strategaeth newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gyda iechyd a lles yn ganolog iddi. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu Strategaeth Ddigidol gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru a bydd hyn yn llywio cyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol. Bydd rhaglen hyfforddi staff i wella sgiliau digidol o fewn y gwasanaeth yn flaenoriaeth. Mae strategaeth cynhyrchu incwm hefyd yn cael ei datblygu i sicrhau cynaladwyedd y gwasanaeth.

Nododd y gwasanaeth fod Llyfrgell Llanwrtyd wedi parhau ar gau ers dechrau'r pandemig, a staff wedi cael eu hadleoli. Penderfynodd ymgynghoriad cyn-covid ynghylch dyfodol y llyfrgell hon y byddai'n trosglwyddo i fod yn llyfrgell gymunedol gyda gwasanaethau'n cael eu darparu gan wirfoddolwyr.

## Crynodeb

Mae'r gwasanaeth wedi manteisio i'r eithaf ar ei arbenigedd cyfathrebu a digidol cryf i barhau i ddarparu gwasanaeth llyfrgell yn ystod y pandemig. Er bod buddsoddiadau staffio ac adnoddau yn parhau i fod yn isel o gymharu â gwasanaethau eraill, mae lefelau defnydd yn gadarnhaol. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu adeiladu ar y cryfderau hyn wrth i ni symud i ffwrdd oddi wrth y pandemig.

## Astudiaeth Achos

Mewn partneriaeth â *Money Saviour*, cynhaliodd Llyfrgelloedd Powys gyfres o sesiynau hyfforddi ar-lein am reoli arian. Roedd y sesiynau hyn yn cwmpasu Credyd Cynhwysol, darparwyr ynni a chyllidebu, a chafodd y cyfranogwyr gyfle i ddysgu a gofyn cwestiynau. Dysgodd y cyfranogwyr lawer am arian grant, peryglon budd-daliadau a ffyrdd o wneud i'w harian fynd ymhellach. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn:

*"I am really excited about making a spreadsheet for my budgeting now – Sorcha is really knowledgeable and has actually made me enthusiastic to plan what I do with my money, rather than just spend it and panic. These sessions have helped a lot."*

*“That was very informative. There were quite a few things that I did not know about Universal Credit, such as Council Tax Reduction being separate from Universal Credit – that is useful to know, and I will be passing that on.”*

*“I did not know quite how many grants were available to help with energy costs. It all seems a bit of a minefield, trying to figure out how to do everything, but this session clarified a lot and I know what my next steps will be.”*

## **RHONDDA CYNON TAF**

Darperir gwasanaethau llyfrgell yn Rhondda Cynon Taf gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 13 cangen a 2 lyfrgell deithiol, gyda 93% o'r trigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell.

### **Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell**

Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cwrdd â'r 12 hawl graidd yn llawn.

Gwelodd RhCT gynnydd o 23% mewn benthycwyr gweithredol, sy'n cael ei briodoli i'r ffaith fod unigolion yn gallu ymuno ar-lein a hefyd y cynnig llyfrgell digidol. Mae bellach yn 4<sup>ydd</sup> yng Nghymru o ran nifer y benthycwyr gweithredol fesul 1000 o'r boblogaeth. Fodd bynnag, mae'n un o bymtheg awdurdod a welodd ostyngiad yn aelodaeth llyfrgelloedd yn 2020/21 o gymharu â 2019/20 oherwydd y pandemig.

Mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi gostwng ychydig yn 2020-21 gyda gostyngiad o 14% ers 2017/18. Fel y nodwyd gan awdurdodau eraill, effeithiwyd ar y gallu i brynu deunyddiau gan adleoli staff a'r tarfu ar y gadwyn gyflenwi. Cadwodd y gwasanaeth ei wariant ar adnoddau plant ac adnoddau Cymraeg.

Mae lefelau staffio wedi aros yr un fath ers 2019/20, gyda chyfanswm y staff proffesiynol fesul 10,000 o'r boblogaeth yn uwch na'r lefel ganolrifol yng Nghymru, a rhai staff yn cael cymorth i ennill cymwysterau llyfrgell.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Mae RhCT yn nodi cynnydd sylweddol o 83% mewn lawrlwythiadau digidol ers 2019/20.
- Darparodd y llyfrgell becynnau darllen i ysgolion drwy wasanaeth llyfrgell yr ysgolion, a chyfrannodd hyn yn effeithiol at hyrwyddo adnoddau yn y maes hwn.
- Darparodd y gwasanaeth amser stori dwyieithog ar-lein ynghyd â digwyddiadau ar-lein eraill i blant yn ystod y pandemig. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu parhau â hyn fel ffordd effeithiol o gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.
- Galluogodd cymorth gan gronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 RhCT i brynu saith ciosg hunanwasanaeth, gan wella'r amgylchedd i gwsmeriaid a staff. Darparodd hyn fesurau diogelu ychwanegol, gan leihau'r angen am ryngweithio wyneb yn wyneb, ystyriaeth bwysig yn ystod y pandemig. Mae'r gwasanaeth yn disgwyl y bydd hyd at 20% o ddychweliadau a benthyciadau yn cael eu gwneud gan ddefnyddio hunanwasanaeth yn y dyfodol, gan ryddhau amser staff ar gyfer ymgysylltu â chwsmeriaid mewn meysydd eraill.

## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Darparodd y gwasanaeth amrywiaeth o astudiaethau achos (enghraifft isod) yn tynnu sylw at yr effaith gadarnhaol a gafodd y gwasanaeth clicio a chasglu ar iechyd a lles pobl, ynghyd ag effaith y benthyciadau digidol o ddyfeisiadau a'r digwyddiadau ar-lein.

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn i ddod, mae blaenoriaethau'n cynnwys datblygu hybiau cymunedol, gan gynnwys creu canolbwynt diwylliannol yn llyfrgell Treorci. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu parhau i weithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu'r model rhwydwaith cymdogaeth ymhellach.

Mae'r gwasanaeth yn nodi'r angen i ystyried y twf yn narpariaeth y gwasanaethau ar-lein a'r angen i gydbwysu'r ddarpariaeth hon â gwasanaethau wyneb yn wyneb. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau i annog aelodau i ddychwelyd i'w llyfrgell leol. Mae cynlluniau i brynu mwy o lechi (*tablets*) ar gyfer darparu gwasanaeth llyfrgell 'cartref' i'r aelodau hynny nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau llyfrgell deithiol. Ochr yn ochr ag awdurdodau lleol eraill, bydd gwella hyder cwsmeriaid yn ystyriaeth allweddol.

## Crynodeb

Mae Rhondda Cynon Taf wedi dangos cryfderau yn ei ddarpariaeth ac ymgysylltiad ar-lein yn ystod y pandemig ac wedi addasu i wasanaethu ei gymunedau mewn gwahanol ffyrdd. Dylai'r gwasanaeth ystyried gwneud y gorau o'r cyfleoedd a ganfuwyd yn ystod y cyfnod hwn i annog mwy o gwsmeriaid yn ôl yn y dyfodol. Mae cefnogaeth gorfforaethol glir i fodolau canolbwynt cymunedol a rhwydwaith cymdogaeth yn awgrymu bod potensial ar gyfer gwelliannau pellach mewn perfformiad yn debygol yn y dyfodol.

## Astudiaeth Achos 1

Gan nad oedd llyfrgelloedd RhCT yn gallu darparu sesiynau amser stori a chreffft mewn llyfrgelloedd, penderfynwyd symud y sesiynau hyn ar-lein a'u darparu drwy dudalen Facebook y Gwasanaeth Llyfrgell. Bu'r staff yn yr adran Plant ac Ysgolion yn ffilmio eu hunain yn darllen storïau yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yna'n dylunio crefft yn ymwneud â thema'r stori. Cynhyrchwyd ffilm yn dangos sut i wneud y grefft a chafodd cwsmeriaid y dewis o argraffu a defnyddio eu deunyddiau crefft eu hunain neu godi 'cit crefft' sylfaenol o'u llyfrgell leol. Roedd yr adborth yn gadarnhaol:

*"The stories on Facebook are great. We sit and watch them on my phone. When I was picking my son up one day, I saw that the library had craft packs, so we picked one of them up and had a go at making a witch's cauldron. It was great to have these things to do as it was hard to explain to Blake why he could not go into the library."*

## Astudiaeth Achos 2

Mae llyfrgelloedd RhCT yn darparu gwasanaeth 'Cartref' i gwsmeriaid llyfrgell nad ydynt yn gallu, oherwydd anabled neu eu bod yn byw fwy na dwy filltir o lyfrgell ac yn methu â chael mynediad at wasanaethau llyfrgell deithiol. Mae'r gwasanaeth hwn yn

galluogi unigolion i gael mynediad at lyfrau Llafar neu lyfrau go iawn a ddewiswyd ar eu cyfer gan staff y llyfrgell gan ddefnyddio meini prawf dethol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Er mwyn ehangu'r gwasanaeth a chynyddu'r defnydd, mae cynllun benthyca llechi wedi cael ei gyflwyno. Darperir llechen, y mae e-Lyfrau neu e-Lyfrau Llafar wedi eu llwytho arni'n barod, ar gyfer y cwsmer. Mae gan y gwasanaeth hwn y potensial i fod o fudd i lawer o unigolion a gellir ei redeg ochr yn ochr â benthyca llyfrau iawn.

## **ABERTAWWE**

Darperir gwasanaethau llyfrgell yn Abertawe gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 17 cangen ac 1 cerbyd danfon i'r cartref, gyda 96% o'r trigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell.

### **Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell**

Mae'r gwasanaeth yn adrodd ei fod yn cwrdd â phob un o'r 12 o hawliau craidd.

Gan Abertawe mae'r nifer ail uchaf o fenthycwyr llyfrgell gweithredol fesul 1000 o'r boblogaeth. Roedd Abertawe yn un o bymtheg awdurdod a welodd ostyngiad yn aelodaeth llyfrgelloedd yn 2020/21 o gymharu â 2019/20 oherwydd y pandemig. Mae rhywfaint o'r gostyngiad yn aelodaeth y llyfrgell o ganlyniad i lanhau data o fewn system yr LMS.

Gwelodd Abertawe ostyngiad o 25% mewn gwariant rhwng mis Ebrill a mis Mehefin pan gaewyd llyfrgelloedd, ac nid oedd llyfrau go iawn yn cael eu benthyca. Fodd bynnag, mae'r cryfderau a ddangoswyd gan wasanaeth llyfrgell Abertawe o ran ymgysylltu â'r gymuned a hyrwyddo cymunedol yn golygu ei bod ar hyn o bryd yn ganolrifol o ran benthyca llyfrau iawn fesul 1000 o'r boblogaeth. Mae'r gwasanaeth wedi cynnal ei ymrwymiad i ddeunyddiau plant a'r Gymraeg. Mae cydberthyniad clir rhwng llyfrau i blant a gwariant yn y maes hwn.

Mae lefelau staffio wedi aros yr un fath ers 2019/20, ac mae'r gwasanaeth yn parhau yn y chwarter isaf ar gyfer staff cymwysedig fesul 10,000 o'r boblogaeth. Fel gyda phob awdurdod lleol ar draws Cymru, fe wnaeth staff wella eu sgiliau digidol yn ystod y pandemig drwy brosiect llwyddiannus Estyn Allan.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Nododd Abertawe gynnydd o 63% yn y defnydd o adnoddau electronig.
- Cafodd teitlau Cymraeg eu cynnwys ym mhob bag llyfrau clicio a chasglu ynghyd â gweithgareddau Cymraeg i ddysgwyr. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod pryniannau a wnaed yn adlewyrchu'r angen i gefnogi iechyd meddwl y cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig.
- Gweithredodd Abertawe wasanaeth clicio a chasglu llwyddiannus, gyda chymorth ymgyrch farchnata i gynyddu defnydd o'r gwasanaeth, yn ogystal ag ymestyn ei wasanaeth danfon i'r cartref.
- Manteisiodd y gwasanaeth ar ei bresenoldeb cynyddol ar gyfryngau cymdeithasol drwy gyflwyno rhai digwyddiadau a gweithgareddau ar-lein a chreu cynnwys newydd drwy ddulliau digidol.
- Gyda chymorth cronfa Cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020, llwyddwyd i brynu pedwar bwth preifatrwydd, ochr yn ochr ag offer digidol i gwsmeriaid ei ddefnyddio yn llyfrgelloedd Abertawe. Roedd hyn yn gymorth i'r



staff wrth gyfathrebu ag ysgolion lleol a theuluoedd i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau digidol, gan gynnwys y Lab Empathi.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Darparodd gwasanaeth llyfrgell Abertawe astudiaethau achos grymus (enghreifftiau isod) sy'n dangos yr effaith y mae gwasanaethau llyfrgell amrywiol wedi'i chael ar deuluoedd a chymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth danfon i'r cartref, cymorth i deulu o dramor, a bagiau llyfrau i blant mewn ysgol gynradd leol i helpu gyda dysgu gartref.

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod i'r dyfodol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn i ddod, mae'r gwasanaeth wedi rhoi cynllun newydd ar waith. Mae'r datganiad gweledigaeth diwygiedig fel a ganlyn:

“Darparu gwasanaeth llyfrgell hyblyg, cynhwysol a chynaliadwy sy'n galluogi dinasyddion a chymunedau i ymgysylltu'n ystyrlon â diwylliant, darllen, technoleg a dysgu yn eu cymuned leol.”

Rhan allweddol o'r weledigaeth hon fydd llyfrgell ganolog newydd. Bydd y llyfrgell newydd yn rhan o ganolbwynt canol y ddinas a bydd yn gwneud dull mwy cydweithredol o weithio yn bosibl gyda gwasanaethau eraill y cyngor. Mae blaenoriaethau pellach yn y dyfodol agos yn cynnwys darllen a llythrennedd, iechyd a lles a chynhwysiant digidol.

## **Crynodeb**

Mae gan wasanaeth llyfrgell Abertawe gysylltiadau a phartneriaethau cymunedol cryf ac mae wedi cynnal lefel gadarn o ddarpariaeth a defnydd er gwaethaf y pandemig. Mae'r gwasanaeth yn y camau cynllunio datblygedig i fanteisio ar y llyfrgell ganolog newydd arfaethedig i gynyddu cyrhaeddiad i gwsmeriaid newydd, yn ogystal â pharhau i adeiladu ar ei chyfleoedd digidol.

## **Astudiaeth Achos 1**

Symudodd mam a'i 3 phlentyn i Abertawe o Sbaen tua 5 mlynedd yn ôl a'i llyfrgell leol yw Llyfrgell St Thomas, sydd wedi ei lleoli mewn cymuned glos iawn yn Nwyrain Abertawe. Profodd y fam rwystr iaith o ran cyfathrebu ac roedd hyn yn ei gwneud hi'n amharod iawn i ofyn am gymorth. Fodd bynnag, roedd hi wedi datblygu perthynas â staff y llyfrgell, ac roedd hi'n ymddiried ynddynt. Roedd y teulu'n wynebu amrywiaeth o anawsterau gan gynnwys pryderon ariannol, llety ac amodau byw gwael a'r plant yn cael eu bwlio. Roedd y wraig mewn cryn ofid a gofynnodd am gefnogaeth y llyfrgell. Roedd arni angen cyngor ynghylch gwneud cais am swyddi.

Ymatebodd y llyfrgell drwy ei chyflwyno i asiantaethau cyflogadwyedd sy'n gweithio'n agos gyda'r llyfrgell, a sicrhodd waith mewn gwesty lleol. Fe'i cynghorwyd hefyd i gysylltu â 'Partneriaeth Teuluol.' Bu staff y llyfrgell hefyd yn cysylltu â'r ysgol gynradd leol ynghylch y materion bwlio ac fe wnaeth y sefyllfa wella o ganlyniad i'r ymyriad hwn. Bu'r llyfrgell hefyd yn gweithio gyda'r Cydlynnydd Ardal Leol (Gwasanaethau Cymdeithasol), y ficer lleol, swyddfa'r AC a'r ysgol i sicrhau bod y cwsmer yn cael y

wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol i wella ei hamodau byw ac yn y pen draw symud ymlaen o rentu preifat i lety'r cyngor.

Y canlyniad i'r teulu yw bod gan y fam swydd y mae'n ei hoffi, a bod y teulu'n teimlo'n ddiogel. Maent yn bwriadu symud i'w cartref newydd yn fuan ac mae hi'n dweud bod yr effaith ar ei lles hi ei hun a lles ei phlant yn anfesuradwy. Mae'r ffaith eu bod yn gallu aros yn yr un ardal gyda'u ffrindiau a'r ysgol gerllaw, yn gysur aruthrol iddynt i gyd ac yn golygu bod ganddynt ragolygon llawer mwy cadarnhaol i'r dyfodol.

## **Astudiaeth Achos 2**

Mae Llyfrgell Penlan wedi ei lleoli ar stad y Cyngor ychydig i'r gogledd o ganol dinas Abertawe yn un o wardiau mwyaf difreintiedig y Sir. Mae Rheolwr y Llyfrgell yn gweithio gyda lleoliadau Dechrau'n Deg yn yr ardal i gefnogi hyrwyddo llythrennedd i deuluoedd lleol, gan gynnwys cymorth i ymuno â'r llyfrgell leol a'i defnyddio.

Sefydlodd y llyfrgell gynllun rhannu llyfrau mewn dau o leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg lleol, gan gynnwys lleoliad Cymraeg. Gan weithio gyda'r tîm cyflwynodd staff y Llyfrgell lyfrau llyfrgell a bagiau llyfrau, ynghyd â deunydd hyrwyddo i annog rhieni i fynd i'w llyfrgell leol a chymorth i ddefnyddio llwyfannau digidol Llyfrgell Abertawe i gael mynediad at lyfrau, storïau, syniadau crefft a gwybodaeth. I lawer o deuluoedd, mae cael mynediad at gasgliadau dwyieithog wedi eu curadu ac am ddim i gefnogi dysgu eu plentyn wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Mae llawer o'r teuluoedd a gymerodd ran wedi ymuno â'u llyfrgell leol ac yn parhau i ymweld â hi. Mae'r llyfrau lluniau dwyieithog, Cymraeg sylfaenol wedi bod yn boblogaidd gyda'r plant ac wedi helpu'r rhieni i ddysgu'r iaith hefyd.

## **TORFAEN**

Darperir gwasanaethau llyfrgell yn Nhorfaen gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 3 cangen ac 1 cerbyd danfon i'r cartref, gyda 97% o'r trigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i lyfrgell.

### **Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell**

Adroddodd y gwasanaeth ei fod yn cwrdd â'r holl hawliau craidd.

Roedd gwasanaeth Torfaen yn un o ddim ond saith awdurdod lleol i weld cynnydd yn aelodaeth llyfrgelloedd yn 2020-21. Mae'r gwasanaeth yn priodoli hyn i boblogrwydd y gwasanaeth 'cais a chasglu' a'r cynnig digidol gwell.

Bu gostyngiad bychan yn y gwariant ar lyfrau yn ystod 2020, er bod y gyllideb lyfrau wedi parhau'n gyson. Mae'r gwariant ar adnoddau plant a deunyddiau Cymraeg wedi'i gynnal. Mae gwariant Torfaen ar stoc yn is na'r cyfartaledd fesul 1000 o'r boblogaeth, ond mae'r benthyciadau yn nes at y safle canolrifol. Mae hyn er gwaethaf gostyngiad yn nifer y benthychwyr gweithredol fesul 1000 o'r boblogaeth ers 2019/20. Mae hyn yn awgrymu bod y dewis o stoc yn briodol ac yn gytbwys ac yn cwrdd ag anghenion gwybodaeth ei chymuned yn effeithiol.

Mae lefelau staffio wedi aros yr un fath ers 2019/20 er bod 1.5 swydd yn wag o hyd. Fel gyda phob awdurdod lleol, roedd 2020 yn flwyddyn heriol gyda llawer o staff yn cael eu hadleoli i ymgymryd â gweithgareddau eraill y Cyngor.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Gwelodd Torfaen gynnydd o 61% yn ei fenthyciadau digidol.
- Roedd Torfaen yn gallu hyrwyddo ei adnoddau plant ac ymgysylltu â theuluoedd drwy ddsbarthu bwndeli llyfrau 'addysgu gartref', a ddewiswyd gan staff ar gyfer plant mewn cymunedau lleol.
- Croesawyd y symudiad i ddigwyddiadau ar-lein gan yr aelodau gan gynnwys amser stori a chlwb darllen poblogaidd.
- Parhaodd y gwasanaeth i hyrwyddo'r Gymraeg drwy weithgareddau rhithwir eleni a chymerodd ran yn Amser Rhigyrau Mawr Cymru ar-lein.
- Sefydlodd staff Wasanaeth Cyfeillio Llyfrgell@Cartref dros dro. Croesawyd y gwasanaeth hwn a bu'n gymorth i'r llyfrgell gefnogi preswylwyr bregus yn eu cartrefi ar adeg pan oedd effaith unigrwydd yn ddifrifol i lawer.

### **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Darparodd y gwasanaeth nifer o astudiaethau achos (enghraifft isod) oedd yn dangos yr effaith fuddiol a gafodd y llyfrgell ar ei chwsmeriaid megis y Gwasanaeth Cyfeillio Llyfrgell@Cartref, y gwasanaeth cais a chasglu; amseroedd rhigyrau a stori ar-lein;

a grŵp darllen ar-lein sy'n cynnwys pobl dros 70 oed yn bennaf, oedd nid yn unig yn teimlo'n fwy mewn cysylltiad, a'u lles yn well ond oedd hefyd wedi dysgu sgiliau digidol newydd.

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod i'r dyfodol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn i ddod, bydd y gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio'r Strategaeth Llyfrgell a Gwybodaeth 2018-23 i ganolbwyntio gweithgareddau.

Mae'r gwasanaeth yn cydweithio â sefydliadau partner i ddarparu cyfleoedd hyrwyddo ac allgymorth yn y gymuned a datblygu prosiectau ar y cyd i helpu i ddarparu gwasanaethau (er enghraifft, Prosiect Iechyd Blaenafon, gweithio mewn partneriaeth sy'n Gyfeillgar i Dementia a gweithgareddau celfyddydol/diwylliannol Cyfuno).

Mae'r gwasanaeth yn bwriadu mabwysiadu ymagwedd gyfunol at ddatblygu gwasanaeth, yn enwedig adeiladu ar y sgiliau digidol a ddatblygwyd trwy brosiect Estyn Allan ac ailgyflwyno gweithgareddau corfforol mewn llyfrgelloedd. Bydd y gwasanaeth cais a chasglu llwyddiannus yn dod yn rhan o'i gynnig craidd.

### **Crynodeb**

Trwy ei ystod eang o bartneriaethau a staff brwdfrydig mae Torfaen wedi llwyddo i gynnal gwasanaeth llyfrgell sy'n dod â llawer o fanteision i gwsmeriaid presennol a rhai newydd. Er gwaethaf lefelau isel o fuddsoddiad yn hanesyddol, mae wedi defnyddio medrau a gallu cyfathrebu'r staff yn effeithiol. Byddai'n fuddiol i Dorfaen ystyried strategaeth i ddenu cyn-gwsmeriaid yn ôl i'r gwasanaeth.

### **Astudiaeth Achos**

Sefydlwyd clwb llyfrau rhithwir ym mis Mawrth 2020. Y prif fater i'w oresgyn yn ystod dyddiau cynnar y cyfnodau clo oedd y ffaith fod y llyfrgell ar gau ac nad oedd mynediad at y stoc lyfrau yn bosibl. Penderfynwyd defnyddio'r gwasanaeth Borrowbox ar yr adeg hon oherwydd bod teitlau amlddefnydd ar gael a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer grŵp darllen ar-lein.

Ymgysylltodd Gweithiwr Llyfrgell Proffesiynol ag aelodau'r grŵp llyfrau ymlaen llaw i'w hannog i gymryd rhan ac i hwyluso symud i Dimau Microsoft a Borrowbox. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Ebrill 2020 ac roedd 12 aelod yn bresennol. Roedd hyn yn llwyddiant sylweddol gan fod mwyafrif y grŵp yn eu 70au a'u 80au, yn byw ar eu pen eu hunain ac heb ddefnyddio unrhyw fath o ystafell gyfarfod rithwir o'r blaen. Roedd mân anawsterau gyda sain a chamera, ond fe wnaethant addasu'n gyflym i'r sefyllfa newydd.

Yn ogystal â helpu i leihau unigrwydd cymdeithasol ymhlith aelodau'r grŵp, fe wnaeth y grwpiau darllen ar-lein helpu i roi hyder i bobl wrth ddefnyddio technoleg.

## **BRO MORGANNWG**

Darperir gwasanaethau llyfrgell ym Mro Morgannwg gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 4 cangen a 5 llyfrgell yn cael eu rhedeg gan y gymuned, gyda 94% o'r trigolion yn byw o fewn 2.5 milltir i llyfrgell. Mae'r llyfrgelloedd a gynhelir gan y gymuned wedi eu cynnwys yn ffigurau adrodd SLICC.

### **Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell**

Roedd y gwasanaeth wedi cwrdd ag 11 o'r 12 o hawliau craidd yn llawn ond ni wnaeth gwrdd ag 1 (strategaeth llyfrgell).

Roedd y Fro yn un o bymtheg awdurdod a welodd ostyngiad yn aelodaeth llyfrgelloedd yn 2020/21 o gymharu â 2019/20 oherwydd y pandemig. Arhosodd gwariant ar ddeunyddiau yn fras yr un fath â'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys y gyfran a wariwyd ar ddeunyddiau plant a'r Gymraeg. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth ychydig yn is na'r chwarterel uchaf ar gyfer y gyllideb ddeunyddiau fesul 1000 o'r boblogaeth, ond mae benthyciadau yn is na'r canolrif. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol adolygu pa eitemau sy'n cael eu prynu a'u benthycia er mwyn ceisio gwneud y defnydd gorau o'r casgliadau.

Mae safleoedd cymharol uchel y gwasanaeth ar gyfer gwariant fesul 1000 o siaradwyr Cymraeg a benthyciadau deunyddiau Cymraeg fesul 1000 o siaradwyr Cymraeg yn cyfateb yn fwy cyfartal. Penododd y gwasanaeth Lyfrgellydd Plant sy'n siarad Cymraeg ar ddiwedd 2019/2020. Fe wnaeth hyn wella cyfathrebu a chydweithio ag ysgolion lleol a helpu i ddarparu ystod o weithgareddau dwyieithog.

Mae lefelau staffio wedi aros yn sefydlog ac ni fu unrhyw newidiadau sylweddol ers 2017. Anogodd y gwasanaeth staff i ymgymryd â chymaint o hyfforddiant â phosibl yn ystod 2020-21 i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi ar-lein ac mae ganddo adnoddau da ar gyfer staff cymwysedig. Roedd canolbwyntio ar sgiliau digidol staff yn flaenoriaeth yn ystod 2020-21, er mwyn cefnogi aelodau, yr oedd llawer ohonynt yn defnyddio gwasanaethau ar-lein am y tro cyntaf.

Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Gwelodd gwasanaeth llyfrgell Bro Morgannwg gynnydd o 55% yn y nifer o adnoddau electronig oedd yn cael eu lawrlwytho.
- I helpu aelodau yn ystod y flwyddyn cynyddodd y gwasanaeth amseroedd benthycia a chafodd dirwyon a thaliadau eraill eu dileu dros dro.
- Rhoddwyd blaenoriaeth i'r gwasanaethau danfon i'r cartref a chlicio a chasglu. Bu'r gwasanaethau hyn yn gymorth i staff feithrin perthynas â chwsmeriaid ledled y Fro.
- Adeiladodd y llyfrgell hefyd ar ei phresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a chynyddodd ei chynnwys ar-lein i blant ac oedolion gydag amrywiaeth o ddigwyddiadau rhithwir, gweithgareddau a chlybiau.

- Mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi'r Gymraeg, gan ganolbwyntio'n arbennig ar lyfrau Cymraeg i blant a dysgwyr.
- Cynorthwywyd staff hefyd i ddysgu Cymraeg, ac roedd yr holl bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog, ynghyd â nifer o'r digwyddiadau ar-lein.
- Creodd y swyddog llyfrgelloedd digidol system archebu ar-lein i gwsmeriaid gasglu llyfrau, a'i gwnaeth yn bosibl i ganghennau ailagor yn ddiogel.
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn arweinydd ar gyfer prosiect LMS Cymru gyfan a datblygiadau ar hyn yn y dyfodol.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Darparodd Bro Morgannwg nifer o astudiaethau achos (enghraifft isod) oedd yn dangos sut y gwnaeth gwahanol gwsmeriaid llyfrgell elwa o'r gwasanaeth yn ystod y pandemig, gan gynnwys y gwasanaeth danfon i'r cartref estynedig, y gwasanaeth clicio a chasglu ar-lein, a sgiliau ar-lein a chyfluoedd digidol pobl ifanc yn eu harddegau a ddatblygodd allan o glwb sy'n cael ei redeg gan y llyfrgell.

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn y dyfodol dros y flwyddyn i ddod, mae'r gwasanaeth yn nodi bod grant trawsnewid cyfalaf wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-2021 i uwchraddio llawr gwaelod llyfrgell Penarth. Roedd ailwampio llyfrgell Penarth yn cynnwys gosod Open+. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i ychwanegu 20 o leiaf o oriau agor ychwanegol at ei oriau agor presennol.

Pryder allweddol i'r gwasanaeth hefyd fydd annog aelodau i ddychwelyd i'r adeiladau llyfrgell ffisegol. Mae angen hefyd ystyried sut i integreiddio gwasanaethau ffisegol a digidol. Mae cefnogi iechyd a lles cymunedau lleol yn flaenoriaeth allweddol i'r gwasanaeth. Bu gwasanaethau megis 'clicio a chasglu' yn hynod boblogaidd yn ystod y pandemig ac mae'n debygol y bydd y gwasanaethau hyn yn parhau i ddiwallu anghenion aelodau Bro Morgannwg.

## **Crynodeb**

Mae gwasanaeth llyfrgell Bro Morgannwg wedi defnyddio ei gryfderau'n effeithiol yn ystod y pandemig i gefnogi ei gwsmeriaid. Dylai'r gwasanaeth allu adeiladu ar ei gyflawniadau i ddenu aelodau a chwsmeriaid yn ôl yn bersonol i'w llyfrgelloedd a manteisio ar fuddsoddiadau newydd megis cyfleusterau Open+.

## **Astudiaeth Achos**

Mae llyfrgelloedd yn ysbrydoli pobl. Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos sut y gall llyfrgelloedd roi hwb i syniad sy'n arwain at rywbeth arbennig.

Ers nifer o flynyddoedd, mae cynorthwydd llyfrgell yn llyfrgell Llanilltud Fawr wedi bod yn cynnal gweithdai Dungeons and Dragons (D&D) i blant a phobl ifanc. Bu'r rhain yn boblogaidd mewn nifer o lyfrgelloedd ar draws y Fro gyda grwpiau'n cyfarfod yn rheolaidd i barhau â'u hymgyrchoedd a baratowyd yn arbennig. Er y bu'n rhaid gohirio'r sesiynau hyn yn anffodus oherwydd cyfyngiadau COVID, rydym wedi derbyn

diweddariadau gwych gan un o'r rhieni am gynnydd ei phlentyn eleni sydd wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r sesiynau D&D.

Dywed y fam wrthym fod ei phlentyn wedi'i siomi'n arw bod yn rhaid i'r sesiynau hyn ddod i ben ym mis Mawrth 2020 ond ar ôl arsylwi'r aelod o staff fel meistr y 'dungeon' yn y sesiynau D&D, dechreuodd drefnu ei sesiynau ar-lein ei hun gyda'i ffrindiau. Treuliodd oriau bob wythnos yn ysgrifennu ymgyrchoedd newydd ac mae ei mam yn dweud wrthym ei fod wedi rhoi hwb gwirioneddol i'w chreadigrwydd fel awdur a storiwr ifanc.

Yn fwyaf diweddar gwnaeth y plentyn gais am le ar brosiect datblygu RPG sy'n cael ei redeg ar y cyd gan brosiect celfyddydol Cymraeg ac Almaeneg i blant, "The Trickster's Net." Cyfyngwyd hyn i 16 lle i fyfyrwyr Cymraeg ac 16 i fyfyrwyr Almaeneg ac roedd yn broses gystadleuol iawn. Roeddem yn falch iawn o glywed bod ei phrofiad o redeg a threfnu sesiynau D&D wedi llwyddo i ennill lle iddi yn y prosiect hwn.

Meddai ei mam:

*"What started as a small fortnightly club in the library has offered my children a sense of belonging, fun, well-being, creativity and confidence."*

Meddai'r plentyn:

*"[D&D] has improved my mental wellbeing and can improve social skills. It has also given me a creative outlet and brings out the creativity in my friends."*

## WRECSAM

Darperir gwasanaethau llyfrgell yn Wrecsam gan yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 10 cangen, 1 llyfrgell deithiol, 1 cerbyd danfon i'r cartref ac 1 llyfrgell yn cael ei rhedeg gan y gymuned nad yw wedi ei chynnwys ar y ffurflen, gyda 92% o'r trigolion yn byw o fewn 2 filltir i llyfrgell.

### Perfformiad y gwasanaeth llyfrgell

Roedd Wrecsam yn cwrdd â 9 allan o'r 12 o hawliau craidd yn llawn, 2 yn rhannol (mynediad at Wi-Fi ac ymgysylltu â defnyddwyr) ac nid oedd yn cwrdd ag 1 (strategaeth llyfrgell ar gael).

Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn perfformio yn y chwarter uchaf ar gyfer benthyciadau oedolion a phlant fesul 1000 o'r boblogaeth, er bod y gyllideb refeniw bresennol yn gosod y gwasanaeth yn y chwarter isaf ar draws Cymru. Mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi parhau i ostwng ac wedi gostwng 26% ers 2020. Yn anffodus, ni ddarparwyd sylwebaeth ac felly nid yw'n glir ai'r pandemig oedd yn gyfrifol am hyn ynteu a yw'n ostyngiad parhaol yn y gyllideb.

Bu gostyngiad sylweddol o 50% yng nghyllideb y Gymraeg; fodd bynnag, mae'r gwariant fesul 1000 o siaradwyr Cymraeg yn parhau i fod fymryn yn uwch na'r canolrif, ac mae benthyciadau fesul 1000 o siaradwyr Cymraeg yn uchel iawn o gymharu â gwasanaethau llyfrgell eraill. Mae'n debygol bod y dewis o stoc gan lyfrgellwyr gwybodus yn sicrhau bod y cynnwys yn adlewyrchu anghenion y gymuned leol yn gywir. Ymhellach, mae'r gwasanaeth yn ymroi i hyrwyddo'r stoc Gymraeg drwy bartneriaethau presennol, megis Tîm Cymraeg, Owain Cyfeliog a chyhoeddiad NENE. Parhaodd llyfrgell Cefn Mawr i gydweithio'n agos ag ysgol gyfrwng Cymraeg leol a llwyddodd i ddarparu deunyddiau ar gyfer dosbarthiadau yn yr ysgol drwy gydol y cyfnod clo.

Cafodd nifer y staff ei ostwng yn 2019/20 ac mae hyn wedi gostwng ymhellach yn 2020/21 ac mae lefelau staffio bellach 14% yn is nag yn 2017. Mae yn y chwarter isaf ar gyfer cyfanswm staffio a staff cymwysedig fesul 10,000 o'r boblogaeth. Mae'n ymddangos bod y gwasanaeth yn parhau dan effaith amgylchedd llym ac ansicr.

Fodd bynnag, ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau clo, drwy addasu a datblygu gwasanaethau newydd.

- Gwelodd y gwasanaeth gynnydd mewn lawrlwythiadau electronig o 88% yn 2020-21. Yn benodol, mae'r gwasanaeth yn nodi poblogrwydd *Ancestry* yn ystod 2020.
- Mae gan y gwasanaeth hefyd amseroedd stori wedi eu recordio ymlaen llaw ar gyfer plant, sydd wedi cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae gwasanaethau ac adnoddau i blant wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r gwasanaeth. Cyflwynodd Wrecsam 55 o sesiynau '*Read Aloud*' ar Zoom drwy gydol y flwyddyn, a daeth nifer dda i'r sesiynau, ond canfuwyd mai tameidiog oedd yr ymgysylltiad â sesiynau amser stori byw yn ystod 2020-21.



- Cynhyrchodd y gwasanaeth fideo dwyieithog yn hyrwyddo llyfrau Gwasanaeth Llyfrgell Wrecsam, a chafodd hwn dderbyniad cadarnhaol.
- Drwy gefnogaeth cronfa cadernid Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn 2020 llwyddodd Wrecsam i brynu llechi (*tablets*) llaw, gorchuddion amddiffynnol a chabinetau gwefru. Gall cwsmeriaid ddefnyddio'r llechi i gael mynediad at gatalog y llyfrgell i bori am eitem a gwneud cais, neu i ddarllen e-lyfr neu e-gylchgrawn. Mae hyn wedi helpu llyfrgelloedd Wrecsam i wella eu harlwy ddigidol i aelodau.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Darparodd gwasanaeth llyfrgell Wrecsam nifer o astudiaethau achos (enghraifft isod) i ddangos gwerth y llyfrgelloedd yn ystod 2020-21. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth well i ysgolion oedd yn ysgogi diddordeb mewn darllen ymhlith y plant, y gwasanaeth danfon i'r cartref, a rhoi benthyg dyfeisiadau digidol i unigolion unig.

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn i ddod, mae Wrecsam yn nodi'r gofyniad i dorri £100,000 pellach ar gyfer y gyllideb yn 2021/22. Mae'n anodd rhagweld y caiff y gwasanaeth ei gynllunio a'i ddarparu'n llwyddiannus i'w gwsmeriaid presennol gyda'r lefel yma o ostyngiad parhaus. Mae cynlluniau i adolygu'r gwasanaeth er mwyn cwrdd ag anghenion pobl sydd heb fynediad at wasanaethau llyfrgell yn Wrecsam ar hyn o bryd. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys darparu gwasanaethau i deuluoedd agored i niwed, yr angen i gefnogi addysg i blant, y Gymraeg a diwylliant Cymru a brwydro yn erbyn effaith negyddol tlodi.

## **Crynodeb**

Mae gwasanaeth llyfrgell Wrecsam yn parhau i wynebu gostyngiadau yn y gyllideb flynyddol sy'n rhwystro ei allu i gyrraedd unigolion a chymunedau a fyddai'n elwa o'i wasanaethau. Efallai y gallai adolygiadau parhaus o rai elfennau o'r gwasanaeth gynnig mwy o sefydlogrwydd fel y gallai'r gwasanaeth ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau, sef plant, cymunedau anghysbell, darpariaeth Gymraeg ac iechyd a lles. Bydd rhoi blaenoriaeth i ddatblygu strategaeth llyfrgell yn gymorth i'r gwasanaeth gynllunio'n fwy effeithiol mewn amgylchedd ansicr.

## **Astudiaeth Achos**

Mae staff y llyfrgell yn awr yn gweithio mewn partneriaeth â staff o'r tîm gofal cymdeithasol i oedolion i helpu i gyflwyno prosiect newydd i aelodau ynysig ac agored i niwed ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Prynwyd sawl iPad gan ddefnyddio cyllid o'r Grant Cynhwysiant Cymunedol (a sefydlwyd i helpu aelodau bregus o'r gymuned) i gynorthwyo'r rhai y nodwyd eu bod mewn perygl o fod mewn sefyllfa ynysig. Roedd yr iPads yn cynnig rhaff achub i'r unigolion hyn oedd yn gallu cysylltu â ffrindiau a theulu gan ddefnyddio'r dechnoleg hon.

Diolch i'r grant, mae llyfrgelloedd yn Wrecsam hefyd wedi gallu darparu 5 iPad 4G i bobl yn y gymuned. Mae hyn wedi galluogi'r unigolion hyn i gael mynediad at lyfrau sain rhad ac am ddim gan y gwasanaeth llyfrgell a chysylltu ag eraill.

## **Atodiad 1: Llyfrgelloedd yn y pandemig**

Er bod rhai amrywiadau ar ôl y cyfnod clo cychwynnol, oherwydd lefelau amrywiol o haint neu leoliad ffisegol adeiladau, roedd llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn gallu gweithredu'n fras fel a ganlyn:

### **Cam 1**

Rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020, caeodd pob adeilad llyfrgell a chynnig gwasanaethau digidol/o bell yn unig. Ar 8 Mai, cyhoeddodd y Prif Weinidog addasiad i'r rheoliad Covid "gan alluogi awdurdodau lleol i ddechrau ar y broses o gynllunio sut i ailagor llyfrgelloedd yn ddiogel". Yn y lle cyntaf, datblygodd a gweithredodd llawer o wasanaethau wasanaeth benthyciadau 'Cliciwch a Chasglu'. Roedd cwsmeriaid y llyfrgell yn gallu cadw eitemau drwy gatalog ar-lein y llyfrgell, neu drwy ffonio'r llyfrgell ac archebu slot i gasglu a dychwelyd eitemau. Roedd hyn yn galluogi cwsmeriaid oedd yn gallu teithio i safle llyfrgell i gasglu a dychwelyd eu llyfrau yn ddiogel. Bu cyllid o £5,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob gwasanaeth yn gyfrwng i lyfrgelloedd roi mesurau diogelwch priodol ar waith i ddiogelu staff a chwsmeriaid.

### **Cam 2**

Rhwng Mehefin/Gorffennaf a Hydref 2020, gweithredwyd ail-agor adeiladau fesul cam yn rhai gwasanaethau, ond gyda mesurau priodol yn eu lle, megis cyfyngu ar nifer yr unigolion a ganiateid yn yr adeilad ar amser penodol. Effeithiwyd ar rai llyfrgelloedd gan gyfnodau clo lleol ym mis Medi. Rhwng mis Hydref a mis Tachwedd, cafwyd cyfnod atal byr yng Nghymru a arweiniodd at gau rhai adeiladau llyfrgell a chynnig gwasanaethau digidol/o bell unwaith eto. Ailagorodd llyfrgelloedd rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2021.

### **Cam 3**

Caeodd adeiladau llyfrgelloedd dros y Nadolig oherwydd rheoliadau Llywodraeth Cymru ac roedd llyfrgelloedd yn cynnig gwasanaethau o bell yn unig. O ddiwedd mis Mawrth, parhawyd i ailagor y rhan fwyaf o ganghennau Cymru yn raddol. Rheolodd awdurdodau lleol unigol y broses o adfer gwasanaethau yn unol â'u gallu i reoli a darparu gwasanaeth. Roedd hyn yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru.

Oherwydd bod y rheoliadau'n newid, roedd llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn gallu agor eu hadeiladau ffisegol am hyd at chwe mis allan o 12 (Mehefin – Rhagfyr 2020). Gydag apwyntiadau a archebwyd ymlaen llaw yn unig yr agorodd llawer o wasanaethau, ac nid agorodd rhai canghennau bychain o gwbl oherwydd anallu i sicrhau pellter corfforol digonol rhwng cwsmeriaid a/neu staff. Agorodd rhai llyfrgelloedd hefyd am lai o oriau, ac roedd rhai yn methu â chynnig mynediad at yr ystod lawn o gyfleusterau gan gynnwys mynediad at gyfleusterau TG.